Archwilio Cymru
Audit Wales

# Caffael a Chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer Pandemig COVID-19

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Ebrill 2021

Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Senedd o dan Ddeddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2021

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

# Cynnwys


Negeseuon allweddol 4

Ffeithiau allweddol 8

Rolau a chyfrifoldebau allweddol 9

Argymhellion 10

**Prif adroddiad 13**

1 Cyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol 13

2 Caffael Cyfarpar Diogelu Personol 40

**Atodiadau 62**

1 Yr ymagwedd a dulliau archwilio 63

2 Sefydliadau a grwpiau a oedd yn rhan o gaffael a chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol 67

3 Stociau Cyfarpar Diogelu Personol y Cydwasanaethau yn ystod y pandemig 69

# Negeseuon allweddol

## Cyd-destun

1 Mae'r adroddiad hwn yn bwrw golwg ar gaffael a chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol yn ystod pandemig COVID-19. Mae Cyfarpar Diogelu Personol yn hanfodol i ddiogelu'r rhai sy'n mynd yn agos at bobl wedi'u heintio. Gall hefyd atal pobl rhag lledaenu'r feirws ymhlith ei gilydd ac i'r rhai y maent yn gofalu amdanynt.

2 Mae ein hadroddiad yn canolbwyntio ar yr ymdrechion cenedlaethol i gyflenwi cyrff iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r ymdrechion hyn wedi cael eu harwain gan Lywodraeth Cymru, gan weithio gyda phartneriaid ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (Y Cydwasanaethau) a llywodraeth leol. Mae'r Cydwasanaethau wedi ysgwyddo rôl estynedig i sicrhau Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn ei gyfanrwydd. Mae Atodiad 1 yn disgrifio ein hymagwedd a'n dulliau archwilio.

3 Nid ydym wedi adolygu trefniadau i gaffael Cyfarpar Diogelu Personol yn lleol gan y GIG a chyrff llywodraeth leol, na'r trefniadau logistaidd a oedd yn eu lle'n lleol i ddosbarthu Cyfarpar Diogelu Personol yn uniongyrchol i staff rheng flaen. Fodd bynnag, rydym wedi adlewyrchu tystiolaeth a gasglwyd gan gyrff proffesiynol am farn staff rheng flaen. Wrth wneud y gwaith hwn, rydym wedi bod yn ymwybodol o'r gwaith gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn Lloegr ar gyflenwi a chaffael Cyfarpar Diogelu Personol. Lle y bo'n bosibl, rydym wedi ceisio cysoni ein cwmpas, er mewn cyd-destun datganoledig.

## Casgliad ar y cyfan

4 Ar y cyd â gwasanaethau cyhoeddus eraill, fe wnaeth y Cydwasanaethau oresgyn heriau cynnar i ddarparu'r Cyfarpar Diogelu Personol a oedd yn ofynnol yn ôl canllawiau ar gyfer cyrff iechyd a gofal heb redeg allan o stoc ar lefel genedlaethol. Maent bellach mewn sefyllfa gryfach o lawer, gyda phentwr o'r rhan fwyaf o Gyfarpar Diogelu Personol ac archebion wedi'u cyflwyno ar gyfer y rhai sydd islaw 24 wythnos. Mae rhai aelodau o staff rheng-flaen wedi dweud eu bod wedi profi prinder Cyfarpar Diogelu Personol ac roedd rhai'n teimlo y dylent fod wedi cael lefel uwch o Gyfarpar Diogelu Personol nag sy'n ofynnol yn ôl y canllawiau. Sefydlodd Llywodraeth Cymru a'r Cydwasanaethau drefniadau da ar y cyfan i gaffael Cyfarpar Diogelu Personol a helpodd i reoli risgiau ac osgoi rhai o'r materion yr adroddwyd arnynt yn Lloegr. Fodd bynnag, ni chyhoeddodd y Cydwasanaethau hysbysiadau dyfarnu contract ar gyfer eu holl gontractau Cyfarpar Diogelu Personol o fewn 30 diwrnod i'w gosod.

## Canfyddiadau allweddol

5 Roedd yr her a oedd yn wynebu'r GIG a chyrff gofal cymdeithasol ar ddechrau'r pandemig yn fawr. Roedd y pentwr a ddatblygwyd ar gyfer pandemig ffliw'n annigonol ar gyfer coronafeirws. Roedd cadwyni cyflenwi byd-eang yn rhanedig wrth i wledydd gystadlu am gyflenwadau prin ac i rai osod rheolaethau allforio.

6 Fe ymatebodd gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru mewn ffordd fwyfwy cydweithredol. Fe ysgwyddodd y Cydwasanaethau rôl estynedig o ran cyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol i'r GIG ehangach, gan gynnwys contractwyr annibynnol ym maes gofal sylfaenol (meddygon teulu, deintyddion, fferyllfeydd ac optometryddion). Wedyn bu'r Cydwasanaethau'n gweithio'n agos gyda llywodraeth leol i ddeall y galw ym maes gofal cymdeithasol ac yna fe ysgwyddodd rôl gynyddol o ran cyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol. Y Cydwasanaethau sy'n diwallu'r holl anghenion o ran Cyfarpar Diogelu Personol ym maes gofal cymdeithasol bron iawn erbyn hyn. Rydym yn cydnabod yr ymdrech unigol a chyfunol enfawr a welwyd yn y gwaith i gaffael Cyfarpar Diogelu Personol a chyflenwi staff rheng flaen ag ef.

7 Mae data'r Cydwasanaethau'n dangos, yn genedlaethol, na wnaeth stociau redeg allan er bod stociau o rai eitemau wedi mynd yn isel iawn. Ar adegau, tynnodd Cymru ar gydgymorth o wledydd eraill ond yn y pen draw fe roddodd symiau sylweddol fwy nag a gafodd. Mae'r system iechyd a gofal bellach mewn sefyllfa well o lawer, gyda stociau wrth gefn o'r rhan fwyaf o eitemau o Gyfarpar Diogelu Personol yn eu lle ac archebion wedi'u cyflwyno ar eitemau allweddol lle mae'r stociau islaw'r targed.

8 Mae arolygon a gwblhawyd gan y Coleg Nyrsio Brenhinol a Chymdeithas Feddygol Prydain yn awgrymu bod hyder yn y cyflenwad o Gyfarpar Diogelu Personol wedi tyfu'n fuan ar ôl dechrau'r pandemig, ond bod pryderon o hyd. Er na allwn fod yn siŵr pa mor gynrychiolaidd yw'r farn hon, soniodd rhai aelodau o staff rheng flaen am brinder eitemau penodol o Gyfarpar Diogelu Personol, gyda lleiafrif bach yn dweud ar adegau nad oedd rhai ganddynt o gwbl. Mewn rhai achosion, mae pryderon staff yn ymwneud â'r ffaith bod arnynt eisiau lefel uwch o Gyfarpar Diogelu Personol nag sy'n ofynnol yn ôl y canllawiau.

9 Roedd ystod o gyrff yn gysylltiedig â chaffael Cyfarpar Diogelu Personol yn fyd-eang ac yn gysylltiedig ag ymateb i weithgynhyrchwyr lleol a gweithio gyda hwy. Mewn cyferbyniad â'r sefyllfa a ddisgrifiwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn Lloegr, ni welsom unrhyw dystiolaeth o roi blaenoriaeth i gyflenwyr posibl gan ddibynnu pwy oedd wedi eu hatgyfeirio.

10 Ar y cyfan, datblygodd y Cydwasanaethau drefniadau da i brynu Cyfarpar Diogelu Personol yn gyflym, gan daro cydbwysedd rhwng yr angen taer i gael cyflenwadau ar gyfer staff rheng flaen a'r angen i reoli risgiau sylweddol i lywodraethu ariannol mewn maes yr oedd gwariant ynddo'n tyfu'n gyflym. Roedd y risgiau hyn yn cynnwys ymdrin â chyflenwyr newydd, gorfod gwneud taliadau mawr ymlaen llaw a symiau sylweddol o offer twyllodrus ac o ansawdd gwael yn cael eu cynnig.

11 Roedd pwysau o ran amser yn golygu nad oedd diwydrwydd dyladwy wastad yn gallu cael ei gyflawni i'r lefel y byddai wedi cael ei gyflawni y tu allan i bandemig mewn proses dendro gystadleuol arferol. Ond, ar gyfer pob contract a adolygwyd gennym ni, canfuom dystiolaeth o wiriadau diwydrwydd dyladwy allweddol. Ac er bod costau'n uwch ar y cyfan na chyn y pandemig, gwelsom dystiolaeth o'r Cydwasanaethau'n negodi prisiau is.

12 Fodd bynnag, ni wnaeth y Cydwasanaethau ateb y gofynion dan reolau caffael brys i gyhoeddi hysbysiadau dyfarnu contract o fewn 30 diwrnod. Dywedodd y Cydwasanaethau wrthym fod angen i'w staff roi blaenoriaeth i gaffael Cyfarpar Diogelu Personol a bod rhesymau gweinyddol eraill dros yr oedi.

13 Roedd cynllun y Cydwasanaethau ar gyfer Cyfarpar Diogelu Personol yn rhedeg tan fis Mawrth 2021. Bellach mae rhai penderfyniadau allweddol i'w gwneud ynglŷn â'r strategaeth ar gyfer Cyfarpar Diogelu Personol yn y dyfodol, gan gynnwys maint a natur y pentwr yn y dyfodol a rôl gweithgynhyrchwyr Cymreig.

**Mae caffael a chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol yn ystod y cyfnod hwn wedi bod ymhell o fod yn fusnes fel arfer. Mae'r heriau, y risgiau a'r pwysau wedi bod yn uwch a bu angen ymateb unigol a chyfunol enfawr.**

**Mae Cydwasanaethau'r GIG, gan weithio gydag eraill, wedi ymateb yn dda i ddatblygu a chynnal y stoc genedlaethol a chyflenwi cyrff iechyd a gofal. Fodd bynnag, er gwaethaf pwysau a oedd mewn cystadleuaeth â'i gilydd, dylai'r Cydwasanaethau fod wedi symud yn gyflymach i gyhoeddi manylion y contractau a osodwyd ganddynt.**

**Er bod y darlun cyffredinol a gaiff ei gyfleu gan fy adroddiad yn weddol gadarnhaol o ystyried yr amgylchiadau anodd, ni allwn anwybyddu'r farn a fynegwyd gan rai o'r bobl ar y rheng flaen ynglŷn â'u profiadau hwy eu hunain. Mae gwersi i Lywodraeth Cymru a'r Cydwasanaethau eu dysgu hefyd – ynglŷn â pharatoi ar gyfer pandemig yn y dyfodol yn ogystal â mynd i'r afael â rhai heriau cyfredol.**



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru


# Ffeithiau allweddol

**630 miliwn**

nifer yr eitemau o Gyfarpar Diogelu Personol a ddyroddwyd gan y Cydwasanaethau rhwng 9 Mawrth 2020 a 7 Chwefror 2021

**Llai na 2**

y nifer isaf o ddiwrnodau o stoc genedlaethol o fisorau, masgiau wyneb math IIR a gynau llawfeddygol ar adegau yn ystod mis Ebrill 2020



**£8 miliwn**

y swm blynyddol y byddai GIG Cymru yn nodweddiadol yn ei wario ar Gyfarpar Diogelu Personol cyn y pandemig



**Dros £300 miliwn**

y cyfanswm y mae disgwyl iddo gael ei wario ar Gyfarpar Diogelu Personol yng Nghymru yn ystod 2020-21

**£880 miliwn**

ein hamcangyfrif ni o faint y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gael hyd yn hyn trwy fformiwla Barnett o ganlyniad i wariant ar Gyfarpar Diogelu Personol yn Lloegr


**24**

nifer yr wythnosau o stoc Cyfarpar Diogelu Personol y mae'r Cydwasanaethau'n amcanu at ei dal ar hyn o bryd



**67**

nifer y cyflenwyr y mae'r Cydwasanaethau wedi contractio gyda hwy i gyflenwi'r GIG a'r sector gofal cymdeithasol â Chyfarpar Diogelu Personol ers dechrau'r pandemig



# Rolau a chyfrifoldebau allweddol

Mae **Atodiad 2** yn nodi'r prif sefydliadau a grwpiau sy'n rhan o gyflenwi a chaffael Cyfarpar Diogelu Personol yn genedlaethol. Ar lefel uwch, y rolau allweddol yw:

**Llywodraeth Cymru** – mae'n arwain ar yr ymateb i'r pandemig a pholisi ar y pandemig, gan gynnwys cynnal cyswllt â Llywodraeth y DU, ac mae'n ariannu Cyfarpar Diogelu Personol



**Y Cydwasanaethau** – a hwythau'n gyfrifol am gaffael Cyfarpar Diogelu Personol a chyflenwi ysbytai ag ef, fe ymgymeron nhw â rôl estynedig ar gyfer caffael a chyflenwi darparwyr ym maes gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol



**Iechyd Cyhoeddus Cymru** – yn gyfrifol am ddatblygu a chyhoeddi, ar y cyd â gwledydd eraill y DU, y canllawiau atal a rheoli heintiau sy'n pennu pa Gyfarpar Diogelu Personol y mae ei angen ac o dan ba amgylchiadau



# Argymhellion

## Argymhellion

### Parodrwydd ar gyfer clefydau pandemig yn y dyfodol

**A1** Fel rhan o ddull gwersi-a-ddysgwyd ehangach, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda gwledydd eraill y DU lle y bo'n bosibl i ddiweddaru cynlluniau i gadw pentwr ar gyfer pandemig i sicrhau ei fod yn ddigon hyblyg i ateb galwadau pandemig a allai ddeillio o wahanol fathau o feirysau.

**A2** Wrth ddiweddaru ei chynlluniau ei hun ar gyfer ymateb i bandemig yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru gydweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill i ddiffinio set o drefniadau llywodraethu ar draws y sector cyhoeddus ar gyfer cynllunio, caffael a chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol fel nad oes angen datblygu'r rhain o'r dechrau un.

**A3** Dylai'r Cydwasanaethau weithio gyda'r GIG a chyrff y sector gofal cymdeithasol i gynnal system gwybodaeth reoli gyfoes ar gyfer stoc sy'n darparu data amserol ar stociau lleol a chenedlaethol o Gyfarpar Diogelu Personol y gellir tynnu arnynt yn gyflym mewn pandemig yn y dyfodol i gefnogi amcanestyniadau o'r galw ac argaeledd yn ogystal â darparu ffynhonnell wybodaeth gadarn ar gyfer briffio rhanddeiliaid.

## Argymhellion

### Strategaeth gaffael ar gyfer Cyfarpar Diogelu Personol

**A4** Wrth ddiweddaru'r ymagwedd strategol tuag at Gyfarpar Diogelu Personol, dylai'r Cydwasanaethau a Llywodraeth Cymru gydweithio i ddatblygu cyfeiriad eglur o ran:

- dychwelyd at gaffael cystadleuol a diwedd ar esemptiadau brys.
- ystyriaeth lawnach i'r meini prawf ehangach a gymhwysir fel arfer i brosesau caffael, megis datblygu cynaliadwy a pholisïau ar gaethwasiaeth fodern.
- y bwriadau a'r dyheadau mewn perthynas â'r farchnad Cyfarpar Diogelu Personol gartref, gan gynnwys y cydbwysedd rhwng manteision posibl cydnerthedd trwy gapasiti cynhyrchu lleol a'r costau a allai fod yn uwch o'i gymharu â gweithgynhyrchwyr rhyngwladol.
- maint a natur y pentwr ar gyfer pandemig y maent yn bwriadu ei ddal, gan ystyried manteision a chostau dal a chynnal stoc ac amseriad pryniadau o ystyried yr amhariadau parhaus i'r farchnad Cyfarpar Diogelu Personol.

## Argymhellion

### Tryloywder

**A5** I gynyddu hyder mewn stociau a chyflenwadau ar y lefel genedlaethol, dylai'r Cydwasanaethau weithio gyda Llywodraeth Cymru i gyhoeddi manylion faint o stoc y maent yn eu dal o bob eitem ochr yn ochr â chyhoeddi data'n rheolaidd ar niferoedd yr eitemau a ddyroddwyd.

**A6** Dylai'r Cydwasanaethau: wirio eu bod wedi cyhoeddi hysbysiadau dyfarnu contract ar gyfer pob contract lle mae'n ofynnol iddynt wneud hynny; adolygu'r rhai y maent wedi'u cyhoeddi i sicrhau eu bod yn gywir; a sicrhau eu bod yn cyhoeddi hysbysiadau dyfarnu contract o fewn y ffrâm amser ofynnol ar gyfer contractau yn y dyfodol.

**A7** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu a oes angen diweddaru gwefan GwerthwchiGymru i alluogi cyrff i gyhoeddi hysbysiadau dyfarnu contract ôl-weithredol yn fwy effeithlon heb ddibynnu ar gyflenwyr i gofrestru.

**A8** O ystyried diddordeb y cyhoedd yn y modd y dyfarnwyd contractau Cyfarpar Diogelu Personol ac i hybu hyder yn y system gaffael, dylai Llywodraeth Cymru a'r Cydwasanaethau gyhoeddi manylion y contractau a ddyfarnwyd dan esemptiadau brys mewn un lle y mae'n hawdd cael mynediad ato.

# Cyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol

01

1.1 Mae’r rhan hon o’r adroddiad yn ymdrin â chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol. Yn arbennig, mae’n bwrw golwg ar y rôl estynedig a ysgwyddodd y Cydwasanaethau o ran cyflenwi ysbytai, lleoliadau gofal sylfaenol a’r sector gofal cymdeithasol cyfan. Mae’n ymdrin â chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol i’r cyrff hynny ym myd iechyd ac i storfeydd llywodraeth leol sy’n dosbarthu i ddarparwyr gofal cymdeithasol. Ni wnaethom fwrw golwg ar brosesau lleol mewn ysbytai nac mewn llywodraeth leol ar gyfer danfon Cyfarpar Diogelu Personol i staff rheng flaen. Fodd bynnag, rydym wedi adlewyrchu tystiolaeth a gasglwyd gan gyrff proffesiynol am farn staff rheng flaen.

## Profodd trefniadau dros y DU gyfan ar gyfer pandemig ffliw yn annigonol ar gyfer gofynion ymdrin â’r coronafeirws ac fe benderfynodd Llywodraeth Cymru yn gyflym y dylai sicrhau ei chyflenwadau Cyfarpar Diogelu Personol ei hun trwy’r Cydwasanaethau

1.2 Mae gan Lywodraeth Cymru a gwledydd eraill y DU gynlluniau hirsefydlog ar gyfer pandemig ffliw. Roedd y rhain yn cynnwys Strategaeth Parodrwydd ar gyfer Pandemig Ffliw 2011, y cytunwyd arni gan bob un o bedair gwlad y DU. Yn dilyn yr achos o ffliw moch yn 2009, fe wnaeth Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ddatblygu a chynnal pentwr cenedlaethol yn barod ar gyfer pandemig ffliw.

1.3 Yn ogystal â meddyginiaethau a gwrthfesurau eraill, roedd y Rhaglen Parodrwydd ar gyfer Ffliw Pandemig (PIPP) yn dal stoc o Gyfarpar Diogelu Personol, yn seiliedig ar amcangyfrifon o’r angen ar gyfer pandemig ffliw. Roedd y PIPP yn cynnwys pentwr ffisegol o eitemau, wedi’u storio yn Ne Cymru, a chontractau ledled y DU ar gyfer stoc ychwanegol i gynyddu’r PIPP i 15 wythnos o gyflenwad os oedd angen. Fodd bynnag, oherwydd diffyg cyflenwad yn y farchnad fyd-eang, ni wnaeth y contractau ‘mewn union bryd’ hyn gyflawni’r addewid mor llawn â’r disgwyl gan na chafwyd yr un o’r anadlyddion FFP3. I liniaru rhai o’r materion hyn, cafodd offer a oedd yn agos at eu dyddiad terfyn, neu wedi mynd heibio iddo, eu profi cyn rhoi estyniad ar y dyddiad terfyn hwnnw.

1.4 Sylweddolodd Llywodraeth Cymru yn gyflym na fyddai'r PIPP yn ddigonol ar gyfer pandemig coronafeirws. Byddai angen defnyddio'r Cyfarpar Diogelu Personol ar raddfa gyflymach i ymdrin â gofynion penodol COVID-19. Roedd rhai eitemau – yn anad dim menig a ffedogau – islaw'r gofyniad amcangyfrifedig ar gyfer pandemig ffliw ac ni fyddent yn para mor hir ag y byddai angen ar gyfer COVID-19. Nid oedd gynau llawfeddygol yn cael eu dal yn y pentwr PIPP[1]. Profodd yr eitemau hyn yn hanfodol i staff ysbytai a oedd yn trin cleifion COVID-19. Mae adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar gyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol yn cadarnhau annigonolrwydd pentwr y DU ar gyfer gofynion coronafeirws.

1.5 Roedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ddechrau y byddai dull a arweinid gan Lywodraeth y DU i ddod o hyd i gyflenwadau ychwanegol. Fodd bynnag, profodd y trefniant hwn yn her o safbwynt ymarferol. Roedd y farchnad fyd-eang yn rhanedig, roedd gwledydd o amgylch y byd yn cystadlu am gyflenwad prin ac fe osododd rhai reolaethau allforio. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi disgrifio'r heriau a wynebwyd gan Lywodraeth y DU i sicrhau cyflenwadau Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer Lloegr yn unig.

1.6 Penderfynodd Llywodraeth Cymru tuag at ddiwedd mis Mawrth 2020 y byddai'n parhau i weithio gyda gweinyddiaethau eraill y DU, lle y bo'n bosibl, ond y byddai'n caffael ac yn cyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol drosti ei hun. Rydym yn ystyried y gwaith i gaffael Cyfarpar Diogelu Personol i Gymru yn **Rhan 2**.

## Sefydlodd Llywodraeth Cymru drefniadau effeithiol ar gyfer cydlynu'r ymdrech gyflenwi er y cymerodd amser i ddatblygu trefniadau cydweithio rhwng y gwasanaeth iechyd a'r sector gofal cymdeithasol

1.7 Fe wnaeth tîm bach o swyddogion Llywodraeth Cymru gydlynu'r ymdrech i gyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol, gan gydweithio'n agos iawn gyda'r Cydwasanaethau. Cynhaliwyd cyfarfodydd dyddiol yn ystod cyfnod cynnar y pandemig i drafod materion megis lefelau stoc, y galw tebygol, dosbarthu'r stoc a oedd ar gael a chaffael cyflenwadau newydd. Y Cydwasanaethau oedd yng ngofal y broses o gyflawni o ddydd i ddydd ac roeddent yn coladu gwybodaeth ar gyfer swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn iddynt allu briffio uwch gydweithwyr a gweinidogion, ac i ymateb i graffu ehangach.

1 Fel a adroddwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, roedd ymgynghorwyr gwyddonol Llywodraeth y DU wedi argymell yn 2019 y dylid ychwanegu gynau a fisorau at y pentwr, ond roedd Llywodraeth y DU yn dal i benderfynu pa ynau i'w caffael pan ddechreuodd y pandemig.

1.8 Sefydlodd Llywodraeth Cymru ddau grŵp allweddol i oruchwylio trefniadau Cyfarpar Diogelu Personol a darparu fframwaith ffurfiol ar gyfer cydweithio yn benodol ar Gyfarpar Diogelu Personol:

- dechreuodd 'grŵp gwrthfesurau iechyd' gwrdd ar 12 Chwefror 2020 i sicrhau cyflenwadau Cyfarpar Diogelu Personol a'u lleoli yn unol â pholisi gweinidogol a chanllawiau iechyd y cyhoedd. Roedd y grŵp yn cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am iechyd a gofal cymdeithasol, y Cydwasanaethau ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd yn atebol i'r Grŵp Cynllunio ac Ymateb, a sefydlwyd ym mis Mawrth i gydgysylltu'r ymateb ar y cyfan gan y gwasanaeth iechyd a'r sector gofal cymdeithasol i'r pandemig ac a oedd yn cael ei gadeirio gan un o uwch swyddogion Llywodraeth Cymru. Fe ataliodd Llywodraeth Cymru y grŵp gwrthfesurau iechyd ar 1 Mehefin 2020 unwaith iddi farnu bod y cyfnod brys wedi dod i ben.
- bu 'grŵp arweinwyr gweithredol' yn cwrdd o ddiwedd mis Ebrill 2020 gan ddod ag uwch swyddog ynghyd o Lywodraeth Cymru, y Cydwasanaethau, pob bwrdd iechyd, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i gyfnewid gwybodaeth am faterion lleol a'r ymateb cenedlaethol. Cyn ffurfioli'r grŵp hwn, roedd cyfathrebu helaeth eisoes yn digwydd rhwng uwch swyddogion gweithredol y GIG a swyddogion Llywodraeth Cymru trwy fecanweithiau eraill.

1.9 Yn ystod mis Mawrth 2020, nid oedd trefniadau cydweithio wedi datblygu gymaint rhwng y Cydwasanaethau, llywodraeth leol a'r sector gofal cymdeithasol. Gwaith craidd y Cydwasanaethau yw cyflenwi ar gyfer gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol gan fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd, ac nid oeddent wedi bod yn gyfrifol yn flaenorol am gyflenwi ar gyfer contractwyr gofal sylfaenol annibynnol a darparwyr gofal cymdeithasol. Fe ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at awdurdodau lleol ar 19 Mawrth 2020 yn datgan y gallai darparwyr gofal cymdeithasol gael Cyfarpar Diogelu Personol gan y Cydwasanaethau i drin preswylwyr symptomatig os nad oeddent yn gallu ei gael o ffynonellau eraill.

1.10 Sefydlodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Llywodraeth Cymru weithgor ar gaffael ar gyfer COVID-19, gan ddwyn ynghyd arweinwyr caffael llywodraeth leol a Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Bu'r grŵp hwn yn cyfarfod yn ddyddiol o 23 Mawrth 2020 tan ddiwedd mis Mehefin 2020 pan ddaeth y cyfarfodydd yn llai mynych wedyn. Roedd gan y Grŵp Cynllunio ac Ymateb is-grŵp gofal cymdeithasol lle gallai cynrychiolwyr o CLILC a sefydliadau gofal cymdeithasol godi materion ynglŷn â chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol. Fodd bynnag, dywedodd CLILC wrthym nad oedd awdurdodau lleol yn teimlo'u bod wedi'u cynnwys yn ddigonol mewn ymateb ar y cyd gan y gwasanaeth iechyd a'r sector gofal cymdeithasol tan 9 Ebrill, pan ymunodd y Cydwasanaethau â'r grŵp caffael.

1.11 Serch hynny, dywedodd pobl y cyfwelom ni â hwy fod trefniadau cydweithio a gweithio mewn partneriaeth yn gryfach o lawer nag oeddent wedi bod yn ystod cyfnod arferol. Cafodd y cydweithio hwn ei helpu gan y ffaith mai un corff cyhoeddus oedd yn gyfrifol am gyflenwi rhan helaeth o'r GIG â Chyfarpar Diogelu Personol yn barod a bod rhwydweithiau a pherthnasoedd eisoes yn bodoli rhwng Llywodraeth Cymru, cyrff y GIG a llywodraeth leol. Mae'r sefyllfa yng Nghymru'n cyferbynnu â'r sefyllfa yn Lloegr. Nododd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ei hadroddiad fod llawer mwy o sefydliadau'n rhan o'r drefn cyn y pandemig a bod mwy o bellter rhwng y llywodraeth a'r asiantaethau a oedd yn gyfrifol am weithgareddau caffael, cyflenwi a rheoli stoc, yr oedd cryn dipyn ohonynt wedi'u rhoi ar gontract i'r sector preifat.

## Canllawiau iechyd y cyhoedd oedd yn pennu pa Gyfarpar Diogelu Personol oedd ei angen a'r rhain oedd y sail i ymdrechion i ganfod faint o Gyfarpar Diogelu Personol fyddai ar y gwasanaeth iechyd a'r sector gofal cymdeithasol ei angen

### Canllawiau

1.12 Cyn yr achos cyntaf yn y DU, roedd awdurdodau iechyd y cyhoedd ledled y DU yn gweithio i ganfod beth fyddai'r gofynion o ran Cyfarpar Diogelu Personol. Ym mis Ionawr 2020, cytunodd y pedair gwlad y dylai COVID-19 gael ei ddosbarthu fel Clefyd Heintus â Chanlyniadau Pellgryhaeddol (HCID). Roedd canllawiau a gyhoeddwyd ar 10 Ionawr 2020 yn nodi mesurau i reoli'r haint, gan gynnwys ynysu cleifion COVID-19 a defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol.

1.13 Ar ôl adolygu gwybodaeth a oedd yn dod i'r fei, gan gynnwys y gyfradd marwolaethau, cafodd y feirws ei dynnu allan o'r dosbarth Clefyd Heintus â Chanlyniadau Pellgyrhaeddol ar 19 Mawrth 2020. O ganlyniad, fe newidiodd y canllawiau o gynghori bod unrhyw un a oedd yn mynd i mewn i ystafell claf a oedd yn ynysu'n gwisgo gŵn, menig hir, masgiau anadlu (FFP3) a chyfarpar diogelu'r llygaid i deilwra'r canllawiau i'r lleoliad, pa un a oedd yn hysbys neu'n debygol bod COVID-19 ar y claf a pha weithdrefnau oedd yn cael eu cynnal.

1.14 Caiff y canllawiau craidd ar atal a rheoli heintiau eu cyhoeddi ar y cyd gan bob un o bedair gwlad y DU, er bod gwledydd unigol yn cyhoeddi canllawiau atodol lle ceir gwahaniaethau. Mae gan y rhai sy'n datblygu'r canllawiau, gan gynnwys cynrychiolwyr o Iechyd Cyhoeddus Cymru, fynediad at gyngor arbenigol[2]. Yn ei adroddiad ym mis Gorffennaf 2020, nododd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Senedd beth ansicrwydd cynnar ymhlith darparwyr ynghylch y canllawiau, yn anad dim ym maes gofal cymdeithasol. Nododd fod canllawiau wedi'u diweddaru a gyhoeddwyd ar 2 Ebrill 2020 wedi darparu mwy o eglurder.



1.15 Mae **Arddangosyn 1** yn nodi'r gofynion o ran Cyfarpar Diogelu Personol ar adeg drafftio'r adroddiad hwn. Ar y cyfan, bu dros 30 o newidiadau i'r canllawiau ers eu cyhoeddi gyntaf ym mis Ionawr 2020. Daeth un newid allweddol ar 10 Ebrill 2020 pan ddiweddarwyd y canllawiau i adlewyrchu'r ffaith y gallai cleifion asymptomatig fod yn heintus. Roedd y canllawiau wedi'u diweddaru'n darparu gwybodaeth fanylach am ba Gyfarpar Diogelu Personol ddylai gael ei wisgo gan staff iechyd a gofal cymdeithasol wrth drin yr holl gleifion, nid dim ond cleifion y cadarnhawyd neu yr oedd amheuaeth bod COVID-19 arnynt. Ar 21 Awst 2020, diweddarwyd y canllawiau i gynnwys llwybr risg COVID-19 i gefnogi gwasanaethau a oedd yn dychwelyd.

1.16 Ar 17 Ebrill 2020, cyhoeddodd Public Health England ganllawiau ar wahân i ddarparu ar gyfer ailddefnyddio Cyfarpar Diogelu Personol yn achos prinderau dwys nes byddai ailgyflenwad digonol wedi cael ei gadarnhau. Yr un diwrnod, rhannodd Prif Swyddog Meddygol Cymru ganllawiau Lloegr gyda chyrff y GIG a gofal cymdeithasol yng Nghymru ond nododd nad oedd yn rhagweld y byddai angen ailddefnyddio yng Nghymru. Ar 27 Ebrill, cafodd canllawiau Public Health England ar ailddefnyddio Cyfarpar Diogelu Personol eu hymgorffori yn y canllawiau a gyhoeddwyd ar y cyd ar gyfer y DU ar atal a rheoli heintiau.

2 Gan gynnwys gan y Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE) a'r Grŵp Cynghori ar Fygythiadau Feirysau Anadlol Newydd a Datblygol (NERVTAG).

1.17 Erbyn 3 Mai, roedd y canllawiau ar wahân gan Public Health England ar ailddefnyddio'n cynnwys nodyn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (ac asiantaethau iechyd y cyhoedd yr Alban a Gogledd Iwerddon) yn datgan na ddylai Cyfarpar Diogelu Personol defnydd untro gael ei ailddefnyddio ac mai dim ond yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr y dylai Cyfarpar Diogelu Personol ailddefnyddiadwy gael ei ailbrosesu. Ni chafodd y nodyn hwn erioed ei gynnwys yng nghanllawiau'r DU ar atal a rheoli heintiau. Tynnwyd yr adran ar ailddefnyddio allan o ganllawiau'r DU ym mis Awst 2020.

**Arddangosyn 1: Cyfarpar Diogelu Personol a ddefnyddir i reoli COVID-19**

| | Math o Gyfarpar Diogelu Personol | Manylion pellach |
|---|---|---|
|  | Ffedogau | Defnyddir ffedog untro wrth roi gofal uniongyrchol o fewn dwy fetr. |
|  | Bagiau cyrff | Defnyddir y rhain gan y rhai sy'n rheoli gweddillion dynol marwolaethau sy'n gysylltiedig â COVID-19. |
|  | Bagiau gwastraff clinigol | Defnyddir y rhain ar draws yr holl leoliadau iechyd a gofal, ar bob adeg ac ar gyfer yr holl gleifion neu unigolion, i waredu Cyfarpar Diogelu Personol yn ddiogel. |
|  | Cyfarpar diogelu'r llygaid neu'r wyneb | Defnyddir y fisorau neu sbectols diogelwch hyn yn ystod gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol ac fel arall os yw'n debygol y bydd gwaed a/neu hylif corffol yn halogi'r llygaid neu'r wyneb. |
|  | Masgiau wyneb | Defnyddir masgiau wyneb nad ydynt yn rhai gwrth-hylif (Masgiau Math II) gan weithwyr iechyd a gofal wrth fynd i mewn i ysbyty neu leoliad gofal.<br>Defnyddir masgiau wyneb gwrth-hylif (Masgiau math IIR) wrth roi gofal uniongyrchol o fewn dwy fetr i achos a gadarnhawyd neu achos tybiedig o COVID-19. |

| Math o Gyfarpar Diogelu Personol | Manylion pellach |
|---|---|
| Menig | Fe'u gwisgir yn ystod cyswllt â chleifion lle ceir risg o ddod i gysylltiad â hylif corffol. |
| Gynau neu orchuddion dros bopeth | Fe'u defnyddir (yn ystod gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol ac fel arall) i wrthsefyll treiddiad gan waed a/neu hylifau corfforol pan fo ffedog yn rhoi gorchudd annigonol ar gyfer y dasg. |
| Hylendid dwylo | Mae defnyddio hylif diheintio dwylo'n rhan o hylendid dwylo ym mhob lleoliad iechyd a gofal, ar bob adeg ac ar gyfer yr holl gleifion neu unigolion. |
| Masgiau anadlu | Defnyddir masgiau anadlu i atal rhag mewnanadlu mân ronynnau yn yr awyr yn ystod gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol.<br>Adwaenir masgiau anadlu fel masg â darn hidlo (FFP). Mae tri chategori o fasg FFP (FFP1, FFP2, FFP3).<br>Dylid gwisgo masgiau FFP3 wrth gyflawni gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol. Dylai gweithwyr gael prawf ffitio ar gyfer masg FFP3 i sicrhau sêl ddigonol.<br>Dan rai amgylchiadau gellir defnyddio masgiau FFP2 fel dewis diogel yn lle masgiau FFP3. |

Nodyn: Gweithdrefn feddygol yw gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol a all achosi i ronynnau hedegog (aerosolau) gael eu rhyddhau o'r pibellau anadlu.

Ffynhonnell: Yn seiliedig ar ddadansoddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o ganllawiau swyddogol yr adroddir arnynt ar dudalen 15 yn The supply of personal protective equipment (PPE) during the COVID-19 pandemic, Tachwedd 2020

## Modelu

1.18 I ddechrau, bu'r Cydwasanaethau'n gweithio gyda chyrff y GIG i gael gwybodaeth am stociau lleol ac amcangyfrif y galw byrdymor. Roedd gan bob bwrdd iechyd ei systemau ei hun ar gyfer rhagfynegi'r galw a rheoli stociau. Daeth awdurdodau lleol ynghyd i geisio canfod beth oedd y galw ar gyfer cartrefi gofal a gofal cartref, ond fe brofodd hyn yn anodd ac fe dyfodd amcangyfrifon cynnar o'r galw'n gyflym wrth i ganllawiau ar ddefnyddio Cyfarpar Diogelu Personol newid.

1.19 Fe sicrhaodd Llywodraeth Cymru gymorth gan dîm logisteg filwrol. Cyflwynodd y tîm adroddiad ar 2 Ebrill 2020 a oedd yn argymell modelu'r galw'n ganolog. Gyda chymorth gan Uned Cyflenwi Cyllid GIG Cymru, dechreuodd y Cydwasanaethau ddatblygu eu model gweithio, gan dynnu ar raddfa dyroddi eitemau. Profodd hyn yn gryn her gan bod canllawiau a pholisi'n newid yn ystod yr ychydig wythnosau cyntaf, er enghraifft i ehangu cwmpas y ddarpariaeth i optometryddion a deintyddion. Cafodd y dadansoddwyr hi'n anodd cael gwybodaeth ddibynadwy am nifer y darparwyr, staff a sesiynau triniaeth gofal sylfaenol, sef prif ysgogwyr y galw. Roedd yr wybodaeth am ofal cymdeithasol yn anghyflawn hefyd, yn enwedig ar gyfer y nifer fawr o ddarparwyr annibynnol a gomisiynir gan awdurdodau lleol. Cafodd y Cydwasanaethau adborth ac fe brofon nhw eu tybiaethau gyda chyrff y GIG. Roedd CLlLC ac awdurdodau lleol yn rhan o ddatblygu'r model i fesur y galw ar gyfer gofal cymdeithasol.

1.20 Rhoddodd y Cydwasanaethau gomisiwn i Deloitte tuag at ddiwedd mis Ebrill 2020 i adolygu'r dull modelu ac awgrymu gwelliannau pellach. Fe helpodd Deloitte i ddatblygu model mwy manwl a ffurfiol ar gyfer y cyflenwad a'r galw, gan ychwanegu ymarferoldeb adrodd nad oedd gan y Cydwasanaethau y capasiti i'w gyflawni a helpu staff y Cydwasanaethau i ddatblygu eu sgiliau modelu. Datblygodd y model fesul tipyn, gyda'r model terfynol (model 1) yn barod i raddau helaeth erbyn diwedd mis Mai gyda pheth mireinio pellach ym mis Mehefin. Gan weithio gyda Deloitte, fe ddatblygodd y Cydwasanaethau ail fersiwn (model 2) i ymgorffori dychweliad arfaethedig gwasanaethau iechyd rheolaidd o fis Awst 2020. Fe arweiniodd hyn at gynnydd yn y galw rhagamcanol a oleuodd Gynllun y Gaeaf ar gyfer Cyfarpar Diogelu Personol (**paragraff 1.36**) a'r pentwr i gario'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol drwy'r gaeaf.

1.21 Roedd y modelau'n offeryn cynllunio pwysig. Roedd dosbarthiad gwirioneddol Cyfarpar Diogelu Personol gan y Cydwasanaethau'n sylweddol wahanol i'r amcanestyniadau ar gyfer rhai eitemau. Ar y cyfan, dyroddodd y Cydwasanaethau fwy o stoc i'r GIG nag a ragamcanwyd gan fodel 1, ond llai o stoc nag a ragamcanwyd gan fodel 2. Serch hynny, roedd hyn yn amrywio'n sylweddol yn ôl cynnyrch. Er enghraifft, mae'r Cydwasanaethau wedi dyroddi mwy o ffedogau nag a ragwelwyd ond llai o anadlyddion FFP3. Yn y sector gofal cymdeithasol, roedd nifer yr eitemau a ddyroddwyd ymhell islaw'r nifer a ragamcanwyd dan y ddau fodel hyd at ddiwedd 2020.

1.22 Fe amlygodd y Cydwasanaethau nifer o resymau dros yr amrywiadau yn y sector gofal iechyd. Mae'r modelau'n seiliedig ar dybiaethau ynglŷn â maint y gweithgarwch a'r rhyngweithio â chleifion neu breswylwyr, yn seiliedig ar senario achos gwaethaf rhesymol. Fe wnaeth llawer o wasanaethau wyneb-yn-wyneb rheolaidd yr oedd disgwyl iddynt ailddechrau o fis Awst 2020 beidio ag ailddechrau gan bod yr ail don wedi gafael, neu fe'u disodlwyd gan ymgyngoriadau o bell gan ddefnyddio technoleg fideo. Nododd y Cydwasanaethau fod lefelau absenoldeb uwch ymhlith staff mewn byrddau iechyd, a staff yn peidio â defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol yn unol â'r canllawiau, yn ffactorau hefyd.

1.23 Ym maes gofal cymdeithasol, dywedodd CLILC wrthym fod rhai darparwyr wedi parhau i ddefnyddio'u cyflenwyr Cyfarpar Diogelu Personol sefydledig i gynnal perthnasoedd cytundebol, hyd yn oed pan oedd Cyfarpar Diogelu Personol wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru ar gael. Mae hefyd yn bosibl bod y galw'n llai na'r disgwyl am bod staff yn ailddefnyddio Cyfarpar Diogelu Personol a oedd wedi'i fwriadu ar gyfer defnydd untro neu'n defnyddio eitemau am yn hwy nag a argymhellir. Hefyd, rydym yn ymwybodol o wahaniaethau mewn polisi rhwng ardaloedd awdurdodau lleol. Mae rhai'n mynd y tu hwnt i'r canllawiau, er enghraifft gan ei gwneud yn ofynnol i staff gofal cymdeithasol wisgo fisorau lle nad yw'r cleient yn achos a gadarnhawyd neu'n achos tybiedig o COVID-19. Mae gwyriadau o'r fath oddi wrth y canllawiau'n effeithio ar faint o Gyfarpar Diogelu Personol y mae ei angen.

## Fe ymatebodd y Cydwasanaethau'n gyflym i ateb y galw uwch am Gyfarpar Diogelu Personol, er bod stociau o rai eitemau'n isel iawn ar adegau cyn i'r sefyllfa sefydlogi o ddiwedd mis Ebrill 2020

1.24 O fis Mawrth 2020, fe gyflogodd y Cydwasanaethau staff newydd i ymateb i'r heriau gweithredol a logistaidd. Ar adeg drafftio'r adroddiad hwn, roeddent wedi cyflogi 94 o aelodau newydd o staff ac wedi ehangu eu fflyd cerbydau, gan logi 44 o gerbydau ychwanegol i roi cymorth i ddanfon cyflenwadau. Fe ehangon nhw eu defnydd o warysau presennol, gan gynnwys warws fawr yr oeddent wedi'i chaffael ym mis Ionawr 2019 i storio offer pe bai Brexit heb gytundeb. Fe wnaeth y Cydwasanaethau sicrhau capasiti logistaidd ychwanegol hefyd trwy gontractio gyda chludwyr yng Nghymru a sicrhau tua 10,000 metr ciwbig o le storio gan y sector preifat, a hwythau dim ond yn talu am y lle a oedd yn cael ei ddefnyddio mewn gwirionedd.

1.25 Nododd y tîm logisteg filwrol a oedd yn cefnogi Llywodraeth Cymru (**paragraff 1.19**) yn ei adroddiad dyddiedig 2 Ebrill 2020 fod capasiti cenedlaethol a rhanbarthol ar gyfer storio a dosbarthu yn addas ar gyfer y diben a bod digon o gapasiti i ateb y galw. Ni fyddai angen i'r fyddin ddisodli darpariaeth bresennol y gadwyn gyflenwi ond, yn ddefnyddiol, gallai gynorthwyo storfeydd lleol i reoli cyflenwadau'n effeithiol a chamu i mewn pe bai cydnerthedd y gweithlu'n methu. Fe wnaeth y fyddin gynorthwyo storfeydd lleol yn ddiweddarach, ond roedd y Cydwasanaethau'n gallu ymdrin â logisteg yn genedlaethol, gyda'r fyddin yn cynorthwyo ar adegau gyda gofynion brys, megis dadlwytho gynau o awyren ym Maes Awyr Caerdydd.

1.26 Roedd y Cydwasanaethau yn dosbarthu stoc o'r pentwr PIPP ar sail system 'wthio' i ddechrau, gan anfon pecynnau safonol o'r stoc a oedd ar gael at ddarparwyr yn seiliedig ar fras amcan o'u hanghenion. Fe wnaeth y cyflenwad PIPP gyfraniad sylweddol at ddarpariaeth Cyfarpar Diogelu Personol yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill 2020, ond roedd hyn yn amrywio yn ôl cynnyrch (**Arddangosyn 2**). Fel a nodwyd ym **mharagraff 1.4**, nid oedd y pentwr PIPP yn cynnwys yr holl eitemau yr oedd eu hangen ar gyfer pandemig coronafeirws.

**Arddangosyn 2: swm yr eitemau yn y pentwr PIPP ym mis Mawrth 2020 ac am faint o amser y parodd**

| Categori'r cynnyrch | Unedau mewn stoc ar y dechrau (1 Mawrth 2020) | Am faint o amser y parodd (wythnosau o 9 Mawrth 2020)[1] |
|---|---:|---:|
| Ffedogau | 9,129,800 | 6.0 |
| Cyfarpar diogelu'r llygaid | 3,144,000 | 10.0[2] |
| Masgiau math IIR | 4,906,000 | 5.5 |
| Anadlyddion FFP3 | 870,000 | 10.9 |
| Menig (rhai unigol) | 4,814,000 | 1.5 |
| Hylif diheintio dwylo | 37,326 | 4.3 |

Nodiadau:

1 Mae'r amser y gwnaeth stoc bara'n seiliedig ar yr amser y cafodd y stoc ei dosbarthu gan y Cydwasanaethau i ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Efallai y bydd yr adeg y'i defnyddiwyd yn wahanol.


2 Roedd y pentwr PIPP yn cynnwys math o sbectol ddiogelwch, a gafodd ei gaffael gan Lywodraeth y DU, y canfuwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch nad oedd yn cyrraedd y safonau gofynnol ar gyfer diogelu rhag hylif yn tasgu. Cyhoeddodd yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd rybudd diogelwch ar gyfer y cynhyrchion hyn ym mis Mai a chafodd tua 25,000 o sbectols eu difa wedyn gan y Cydwasanaethau.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata'r Cydwasanaethau

1.27 Gostyngodd lefelau'r stoc PIPP wrth i eitemau gael eu tynnu i lawr ac fe gyfyngwyd ar ddanfon o ffynonellau eraill gan brinder cyflenwadau. Yn y cyfamser, fe gynyddodd y galw'n gyflym wrth i'r Cydwasanaethau ddechrau cyflenwi'r sectorau gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol yn ogystal ag ysbytai.

1.28 Roedd pwysau'n arbennig o drwm ym mis Ebrill (**Arddangosyn 3**). Roedd llai nag wythnos o gyflenwad o fasgiau math IIR, fisorau wyneb a gynau gwrth-hylif yn stoc y Cydwasanaethau am gryn dipyn o'r mis. Bu'r cyflenwad o fasgiau math IIR bron â dod i ben ar 16 Ebrill, gyda stociau'n cyrraedd ar y dydd fel rhan o gydgymorth o'r Alban ac yna pan gyrhaeddodd archeb o Tsieina. Roedd cyflenwadau o ynau gwrth-hylif yn beryglus o isel, gyda llai na deuddydd o gyflenwad ar gael ar rai adegau. Dibynnodd y Cydwasanaethau ar ynau gwrth-hylif a ddanfonwyd ar frys oddeutu'r 20fed o Ebrill 2020 o Loegr, ac fe gymerwyd camau ar frys i ganfod stociau a oedd yn cael eu dal mewn storfeydd lleol ac ysbytai. Nid oedd gan y Cydwasanaethau olwg gynhwysfawr ar stociau a oedd yn cael eu dal mewn storfeydd lleol nes i'r system StockWatch gael ei sefydlu (**paragraff 1.41**).

**Arddangosyn 3: diwrnodau o Stoc y Cydwasanaethau a oedd ar gael ar gyfer masgiau math IIR, fisorau wyneb a gynau gwrth-hylif, Ebrill 2020**





Sylwer: cyfrifwyd y diwrnodau o stoc y Cydwasanaethau a oedd ar ôl gan ddefnyddio cyfartaledd o ddyroddiadau blaenorol am 28 diwrnod. Y pwynt isaf ar gyfer masgiau math IIR oedd 1.8 diwrnod ar 18 Ebrill, ar gyfer fisorau wyneb 0.8 diwrnod ar 8 Ebrill, ac ar gyfer gynau gwrth-hylif 1.2 ar 26 Ebrill.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata'r Cydwasanaethau

1.29 Fe wellodd y sefyllfa'n raddol tuag at ddiwedd mis Ebrill 2020 a thrwy fis Mai a mis Mehefin wrth i stoc gan gyflenwyr newydd ddechrau cael ei danfon (**Arddangosyn 4**). Fe wnaeth 200,000 o ynau gwrth-hylif a ddanfonwyd o Gambodia ar 27 Ebrill (gweler yr astudiaeth achos yn **Arddangosyn 10, tudalen 45)**, ac yna llwythi mawr a ddanfonwyd o Tsieina yn gynnar ym mis Mai, alluogi Llywodraeth Cymru i roi cydgymorth i wledydd eraill yn y DU. Yn y pen draw mae Cymru wedi darparu mwy o eitemau o Gyfarpar Diogelu Personol nag a gafodd[3]. Roedd y sefyllfa gyda'r rhan fwyaf o eitemau'n sefydlog erbyn diwedd mis Mai, gyda gwerth mwy nag 14 diwrnod o gyflenwad mewn stociau canolog ar gyfer yr holl eitemau ac eithrio menig. Erbyn 20 Gorffennaf, wedi i fenig gael eu danfon, roedd mwy nag 14 diwrnod o gyflenwad ar gyfer pob eitem ac roedd pob categori yn 'wyrdd' ar system sgorio risg y Cydwasanaethau.

**Arddangosyn 4: diwrnodau o stoc y Cydwasanaethau a oedd ar gael ar gyfer masgiau math IIR, fisorau wyneb a gynau gwrth-hylif, Mai - Mehefin 2020**




Sylwer: cyfrifwyd y diwrnodau o stoc y Cydwasanaethau a oedd ar ôl gan ddefnyddio cyfartaledd o ddyroddiadau blaenorol am 28 diwrnod

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata'r Cydwasanaethau

3 Mae'r Cydwasanaethau'n nodi eu bod, ers dechrau mis Ebrill 2020, wedi dyroddi 13.8 miliwn o eitemau o gydgymorth ar gyfer gwledydd eraill y DU ac wedi cael 1.4 miliwn o eitemau ar gais o'r Alban a Gogledd Iwerddon. Hefyd, mae wedi cael oddeutu 3.3 miliwn o eitemau gan Lywodraeth y DU i ailgyflenwi'r stociau PIPP. Fe ymrwymodd y Cydwasanaethau hefyd i gontractau i ddarparu gwerth £37.5 miliwn o Gyfarpar Diogelu Personol ar gyfer gwledydd eraill y DU (**paragraff 2.42**).

1.30 Mae'r Cydwasanaethau wedi newid yn raddol i system 'dynnu' o ran cyflenwi. Yn hytrach na phecynnau safonol neu ddanfon cyflenwadau yn seiliedig ar y stoc sydd ar gael, gall darparwyr nodi beth mae arnynt ei angen. Digwyddodd y newid hwn yn weddol gyflym ar gyfer darparwyr y GIG, ym mis Awst ar gyfer llywodraeth leol ac ym mis Medi ar gyfer gofal sylfaenol. Mae'r 'system dynnu' yn golygu bod gan y Cydwasanaethau ddealltwriaeth well am y galw a bod gan ddarparwyr fwy o allu i gael yr hyn y mae ei angen arnynt ac osgoi cael gorgyflenwad y mae angen iddynt ei storio'n lleol.

1.31 Mae'r data ar stociau'r Cydwasanaethau'n dangos na ddaeth eu stoc o unrhyw eitem o Gyfarpar Diogelu Personol i ben yn ystod y pandemig. Nid ydym wedi ceisio gwirio lefelau'r stociau lleol na pha un a oedd Cyfarpar Diogelu Personol yn cael ei ailddefnyddio'n lleol. Dywedodd y Cydwasanaethau wrthym fod cyrff y GIG wastad yn cael eu cyflenwi â digon o stoc i ateb gofynion y canllawiau. Roedd cofnodion y grŵp arweinwyr gweithredol (**paragraff 1.8**) yn dangos na ddywedodd yr un o grwpiau'r GIG fod ei Gyfarpar Diogelu Personol wedi dod i ben. Mae'r cofnodion yn adlewyrchu'r pryderon ynghylch stociau isel a nodir uchod a bod cydgymorth rhwng byrddau iechyd ar adegau.


1.32 Fe amlygodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Senedd yr anawsterau sylweddol a wynebodd y sector gofal cymdeithasol o ran ateb gofynion Cyfarpar Diogelu Personol yn y cyfnod cynnar. Mae nodiadau o'r gweithgor llywodraeth leol ar gaffael (paragraff 1.10) yn cadarnhau'r darlun hwn. Mynegodd y grŵp bryderon difrifol ynghylch y sefyllfa a oedd yn datblygu tuag at ddiwedd mis Mawrth 2020 ac yn gynnar ym mis Ebrill, gan gynnwys pryderon ynghylch diffyg gwybodaeth am argaeledd stoc, eglurder canllawiau a stociau isel iawn o eitemau allweddol gan gynnwys hylif diheintio dwylo a masgiau.

1.33 Erbyn 6 Ebrill 2020, roedd y grŵp yn teimlo bod y sector mewn sefyllfa argyfyngus. Ar yr adeg hon, roedd y Cydwasanaethau'n gyfrifol am gyflenwi darparwyr gofal cymdeithasol â Chyfarpar Diogelu Personol dim ond lle nad oeddent yn gallu sicrhau eu heitemau eu hunain. Roedd cynghorau a chartrefi gofal preifat yn bennaf yn sicrhau Cyfarpar Diogelu Personol drostynt eu hunain yn unigol neu fel rhan o drefniadau rhanbarthol. Fodd bynnag, rhoddodd Llywodraeth Cymru orchwyl i'r Cydwasanaethau gyflenwi'r sector gofal cymdeithasol yn fwy eang a dechreuodd cyflenwadau gynyddu. Roedd y rhain yn hanfodol i gynnal lefel sylfaenol o gyflenwad.

1.34 Fe wellodd y sefyllfa, gyda'r grŵp yn nodi, erbyn 7 Mai 2020, bod oddeutu dwy ran o dair o anghenion y sector gofal cymdeithasol yn cael eu diwallu gan y Cydwasanaethau. Fe fabwysiadodd CLILC a'r Cydwasanaethau gytundeb lefel gwasanaeth ar 1 Medi 2020 a oedd yn golygu y byddai'r Cydwasanaethau'n danfon eitemau'n wythnosol i'r storfeydd lleol yn seiliedig ar ofynion amcangyfrifedig cynghorau. Ni chafodd y newid o drefn lle'r oedd y Cydwasanaethau'n gweithredu fel cyflenwr a oedd yn ddewis olaf i drefn lle byddent yn diwallu'r rhan fwyaf o anghenion y sector gofal cymdeithasol ei gyfleu'n ffurfiol i'r sector gofal cymdeithasol tan 12 Hydref. Fodd bynnag, digwyddodd newid mewn polisi i ddiwallu anghenion darparwyr gofal cymdeithasol ar alw yn llawer cynharach, ym mis Ebrill 2020, ac fe gyflëwyd hynny'n anffurfiol i ddarparwyr trwy CLILC ac awdurdodau lleol. Er bod yn well gan rai darparwyr annibynnol gynnal contractau gyda chyflenwyr Cyfarpar Diogelu Personol presennol, ymddengys fod y rhan fwyaf o anghenion bellach yn cael eu diwallu gan y Cydwasanaethau.

1.35 Rhwng 9 Mawrth 2020 a 2 Chwefror 2021, dosbarthodd y Cydwasanaethau oddeutu 630 miliwn o eitemau o Gyfarpar Diogelu Personol i'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae **Arddangosyn 5** yn dangos bod y swm a ddosbarthwyd wedi cynyddu rhwng mis Mawrth a mis Mehefin cyn dod yn fwy sefydlog. Dros y cyfnod rhwng mis Ebrill 2020 a mis Ionawr 2021 roedd oddeutu hanner y Cyfarpar Diogelu Personol a ddyrannwyd gan y Cydwasanaethau'n eitemau ar gyfer y sector gofal cymdeithasol.

**Arddangosyn 5: eitemau o Gyfarpar Diogelu Personol a ddosbarthwyd yn wythnosol gan y Cydwasanaethau, rhwng 9 Mawrth 2020 a 7 Chwefror 2021 (miliynau o eitemau)**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Darparu eitemau cyfarpar diogelu personol: hyd at 7 Chwefror 2021, rhyddhawyd 11 Chwefror 2021

## Mae'r Cydwasanaethau wedi cronni cyflenwad wrth gefn o stoc Cyfarpar Diogelu Personol ond nid yw'r nod i fod â gwerth 24 wythnos wedi cael ei gyrraedd ar gyfer yr holl eitemau

1.36 Ym mis Gorffennaf 2020, fe argymhellodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Senedd y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi strategaeth ar gyfer sicrhau cyflenwad cydnerth o Gyfarpar Diogelu Personol, gan gynnwys cynllun ar gyfer pentyrru. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad. Roedd Cynllun Gaeaf y Cydwasanaethau ar gyfer Cyfarpar Diogelu Personol, y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru, yn cynnwys cronni stoc wrth gefn o eitemau allweddol i bara am 24 wythnos. Mae'r Cydwasanaethau a Llywodraeth Cymru yn y broses o adolygu'r Cynllun a'r targed 24 wythnos (**paragraff 2.46**).

1.37 Ar gyfer y rhan fwyaf o eitemau roedd y Cydwasanaethau'n gallu cronni stoc wrth gefn i bara am 24 wythnos. Ar gyfer rhai eitemau mae data'r Cydwasanaethau'n dangos gwerth sawl blwyddyn o stoc, er y gallai hyn adlewyrchu'r ffordd y caiff y galw yn y dyfodol ei gyfrifo[4]. Mae **Atodiad 3** yn nodi'n fanwl beth yw'r sefyllfa o ran lefelau'r stoc a ddyroddwyd ac a ddelir yn genedlaethol (heb gynnwys stociau lleol).


1.38 Fodd bynnag, ar gyfer rhai eitemau ni fu erioed stoc wrth gefn a fyddai'n para am 24 wythnos. Trwy ail don y pandemig mae rhai stociau wedi gostwng yn sylweddol – yn arbennig, anadlyddion FFP3 a menig nitril (**Arddangosyn 6**). Mae'r ddwy eitem hyn wedi profi'n anodd i'w cael.

1.39 Yn achos menig nitril, ychydig iawn o weithgynhyrchwyr sydd, a hwythau wedi'u lleoli'n bennaf ym Malaysia lle tyfir y rwber y mae ei angen i'w gwneud. Dywedodd y Cydwasanaethau fod yr argyfwng a ddatganwyd ym Malaysia ym mis Ionawr 2021 oherwydd COVID-19 wedi bod yn rhwystr i gyflenwadau diweddar. Ar gyfer anadlyddion FFP3, mae'r mater yn ymwneud â brand penodol o fasg y mae clinigwyr yn ei ffafrio. Dywedodd y Cydwasanaethau wrthym fod y gweithgynhyrchwr wedi ailbennu ffocws ei ymdrechion ar anadlyddion FFP2, a oedd wedi cyfrannu at brinder byd-eang a llithriant mewn dyddiadau danfon disgwyliedig.

1.40 Ar adeg drafftio, roedd y Cydwasanaethau'n disgwyl i archebion mawr o anadlyddion FFP3 a menig gael eu danfon. Mae'r Cydwasanaethau'n cyfrifo y bydd danfon yr archebion hyn yn codi lefelau stoc yr eitemau hyn i fwy na 24 wythnos. Yn y cyfamser, mae'r Cydwasanaethau wedi caffael symiau bychain o'r eitemau hyn i gadw'r cyflenwad yn sefydlog. Fodd bynnag, meddai CLILC wrthym, er bod menig ar gael, mae prinder meintiau penodol.

4 Rydym wedi rhagamcanu am faint o amser y bydd stoc yn para yn seiliedig ar gyfuniad o fodelu a'r eitemau a dynnwyd i lawer mewn gwirionedd dros y 28 diwrnod blaenorol. Ar gyfer rhai eitemau, fel bagiau cyrff, anfonir stoc allan mewn sypyn sy'n para am sawl wythnos. Trwy seilio'r amcanestyniadau ar gyflenwad diweddar, gall edrych fel y bydd y stoc yn para am yn hwy nag y bydd mewn gwirionedd ac mae'r amcanestyniadau hyn yn newid wedyn pan anfonir y sypyn nesaf allan.

**Arddangosyn 6: wythnosau o stociau'r Cydwasanaethau o anadlyddion FFP3 a menig nitril a oedd yn cael eu dal, 2 Ebrill 2020 - 8 Chwefror 2021**




Sylwer: cyfrifwyd yr wythnosau o stoc y Cydwasanaethau a oedd ar ôl gan ddefnyddio cyfartaledd o ddyroddiadau blaenorol am 28 diwrnod. Y pwynt isaf ar gyfer anadlyddion FFP3 oedd 1.2 wythnos ar 2 Ebrill ac ar gyfer menig 1.3 wythnos ar 7 Rhagfyr.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata'r Cydwasanaethau

1.41 Mae systemau i fonitro stoc wedi gwella dros amser. Daeth systemau'r Cydwasanaethau o dan straen wrth i stociau gyrraedd o'r pentwr PIPP, pryniannau newydd ac fel cydgymorth, a hynny'n annisgwyl weithiau. Roedd maint y stoc a'r gweithgarwch yn uwch o lawer na chyn y pandemig. Mewn ymateb i adroddiad y tîm logisteg filwrol (**paragraff 1.25**), cyflwynodd y Cydwasanaethau system 'StockWatch' i storfeydd lleol adrodd yn wythnosol ar y stoc oedd ganddynt ar gyfer pob eitem. Fodd bynnag, dywedodd y Cydwasanaethau wrthym nad yw awdurdodau lleol wastad yn cyflwyno gwybodaeth yn brydlon.

1.42 Dywedodd CLILC wrthym fod rhai cynghorau'n cwestiynu gwerth StockWatch i'r sector gofal cymdeithasol. Stociau bach iawn o Gyfarpar Diogelu Personol y mae storfeydd offer cyfunol awdurdodau lleol yn eu dal, gyda'r rhan fwyaf ohono'n cael ei anfon at ddarparwyr cyn gynted ag y mae'n cyrraedd. Nid yw StockWatch yn cofnodi stociau a ddelir gan ddarparwyr gofal cymdeithasol ac nid yw wedi'i integreiddio â systemau rheoli stoc awdurdodau lleol. Er gwaethaf y materion hyn, mae'r Cydwasanaethau o'r farn bod yr wybodaeth o StockWatch yn werthfawr i'w helpu i gyflenwi'r sector gofal cymdeithasol â Chyfarpar Diogelu Personol.

## Roedd i'w weld fel bod hyder yn y cyflenwad o Gyfarpar Diogelu Personol wedi cynyddu yn dilyn yr ymateb cychwynnol ond mae pryderon yn dal i fodoli ynghylch eitemau penodol a rhai materion cydraddoldeb

### Barn staff a darparwyr gofal cymdeithasol

1.43 Clywodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Senedd dystiolaeth gan grwpiau cynrychiolaidd a nododd 'ofnau a phryderon staff rheng flaen ynghylch argaeledd Cyfarpar Diogelu Personol priodol' yn ystod yr ymateb cychwynnol. Fe wnaethom wahodd sefydliadau a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor i ddarparu unrhyw ddiweddariadau i ni eu hystyried. Cawsom dystiolaeth bellach o arolygon ar gyfer Cymru yn unig gan y Coleg Nyrsio Brenhinol, a arolygodd nyrsys sy'n gweithio yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, a Chymdeithas Feddygol Prydain. Gan mai cyfranogwyr hunan-ddetholedig oedd y rhain, yn hytrach na sampl ar hap, ni allwn wybod pa mor gynrychiolaidd yw'r profiadau hyn o weithlu'r GIG a'r gweithlu gofal cymdeithasol yn eu cyfanrwydd.

1.44 Er bod nifer yr ymatebwyr ar y cyfan wedi gostwng yn sylweddol, roedd data'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn awgrymu peth gwelliant rhwng mis Ebrill a mis Mai 2020 yn y ganran a ddywedodd fod ganddynt gyflenwadau digonol o wahanol fathau o Gyfarpar Diogelu Personol. Fodd bynnag, roedd pryderon yn cael eu nodi o hyd gan leiafrif arwyddocaol o ymatebwyr, yn enwedig mewn ymateb i gwestiynau am anadlyddion FFP3 a gynau yng nghyd-destun gweithdrefnau risg uchel, megis gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol (**Arddangosyn 7**). Efallai fod canfyddiadau staff am Gyfarpar Diogelu Personol wedi adlewyrchu eu profiadau o ddosbarthu o fewn safleoedd lleol yn hytrach na'r darlun cenedlaethol o ran lefelau stociau.

**Arddangosyn 7: Ymatebwyr i arolwg y Coleg Nyrsio Brenhinol a ddywedodd fod ganddynt gyflenwadau digonol o bob math o Gyfarpar Diogelu Personol, mis Ebrill a mis Mai 2020**

| Math o Gyfarpar Diogelu Personol | Ebrill | Mai |
|---|---|---|
| Cyfarpar diogelu'r llygaid | 52% | 85% |
| Masgiau math IIR | 46% | 80% |
| Ffedog | 90% | 96% |
| Menig | 94% | 96% |
| Anadlyddion FFP3 | 63% | 79% |
| Gynau llewys hir | 57% | 67% |

Sylwer: cafodd y Coleg Nyrsio Brenhinol 875 a 292 o ymatebion o Gymru ym mis Ebrill a mis Mai yn y drefn honno. Dim ond yng nghyd-destun gweithdrefnau risg uchel, megis gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol, y gofynnodd y Coleg Nyrsio Brenhinol i ymatebwyr am anadlyddion FFP3.

Ffynhonnell: Arolygon o aelodau'r Coleg Nyrsio Brenhinol


1.45 Roedd Cymdeithas Feddygol Prydain yn gofyn i'r ymatebwyr i'w arolwg nodi meysydd a oedd yn achosi pryder o restr o wahanol faterion. Gostyngodd y rhai a nododd brinder Cyfarpar Diogelu Personol fel pryder o 38% i 13% rhwng mis Mai a mis Rhagfyr 2020[5]. Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt am fathau penodol o Gyfarpar Diogelu Personol, roedd canfyddiadau cyfranogwyr yn arolwg Cymdeithas Feddygol Prydain am lefelau Cyfarpar Diogelu Personol yn gymysg.

5 Roedd y cwestiwn yn gofyn i ymatebwyr ddewis o restr o bryderon posibl dros y misoedd nesaf. Roeddent yn gallu dewis cymaint o opsiynau ag yr hoffent, gan gynnwys 'Prinder Cyfarpar Diogelu Personol'.


1.46 Ar gyfer nifer o eitemau, ychydig iawn o ymatebwyr os o gwbl ddywedodd nad oedd cyflenwad o gwbl (**Arddangosyn 8**). Fodd bynnag, fe gynyddodd y gyfran a amlygodd brinderau ar gyfer y rhan fwyaf o eitemau ym mis Rhagfyr 2020. Efallai fod pryderon ynghylch prinder menig ym mis Rhagfyr 2020 yn adlewyrchu'r ffaith bod caffael y rhain wedi bod yn her (**paragraff 1.38**). Fodd bynnag, mae'n aneglur pam fyddai cynnydd mewn pryderon ynghylch cyflenwi masgiau gwrth-hylif (Math IIR), cyfarpar diogelu'r llygaid a ffedogau o ystyried lefelau'r stoc genedlaethol o'r eitemau hyn ar y pryd. Yn ei adroddiad (**paragraff 1.25**), dywedodd y tîm logisteg filwrol y gallai rhai canfyddiadau am y cyflenwad fod oherwydd diffyg golwg ar y stociau a oedd ar gael.

**Arddangosyn 8: Ymatebwyr i arolwg Cymdeithas Feddygol Prydain a ddywedodd fod ganddynt brinder neu ddim cyflenwad o bob math o Gyfarpar Diogelu Personol, mis Mai - Rhagfyr 2020**

**Prinder**




**Dim cyflenwad o gwbl**




Sylwer: roedd niferoedd yr ymatebion yn amrywio rhwng 463 ymmis Mai, 258 ym mis Awst, 492 ym mis Hydref a 505 ym mis Rhagfyr. Roedd yr arolwg yn gofyn: 'Dros y ddwy wythnos ddiwethaf, a fu gennych gyflenwadau digonol gan y GIG o'r Cyfarpar Diogelu Personol canlynol ynteu a fu gennych brinder?'. Gallai ymatebwyr ddewis 'digonol', 'prinder', 'dim cyflenwad o gwbl', 'ddim yn gwybod', neu 'ddim yn berthnasol' fel ateb. Mewn rhai achosion, roedd yr ymateb 'ddim yn berthnasol' mor uchel â 27% ac roedd yn gyson oddeutu 25% ar gyfer y rhai a ymatebodd i'r cwestiynau am anadlyddion FFP3 a gynau llewys hir.

Ffynhonnell: Arolygon Cyfarpar Diogelu Personol COVID-19 Cymdeithas Feddygol Prydain

1.47 Un o'r pryderon allweddol gan staff a adlewyrchwyd yn Arolwg Cymdeithas Feddygol Prydain fu argaeledd anadlyddion FFP3 a gynau untro llewys hir. Mae'r eitemau hyn yn ofynnol yn ôl y canllawiau ar gyfer gweithdrefnau risg uwch sy'n cynhyrchu aerosol. Mae'n anodd bod yn siŵr i ba raddau y mae pryderon staff yn ymwneud â diffyg cyflenwad o Gyfarpar Diogelu Personol gofynnol neu â'r canllawiau eu hunain. Mae canfyddiadau arolygon y Coleg Nyrsio Brenhinol a Chymdeithas Feddygol Prydain mewn perthynas ag anadlyddion FFP3 a gynau hefyd yn adlewyrchu pryderon ehangach ynghylch lefel y Cyfarpar Diogelu Personol sy'n ofynnol yn ôl y canllawiau. Mae Cymdeithas Feddygol Prydain wedi mynegi pryder ynghylch diwygiadau i ganllawiau ynghylch gynau ac anadlyddion FFP3 pan gafodd COVID-19 ei israddio o Glefyd Heintus â Chanlyniadau Pellgyrhaeddol ym mis Mawrth 2020 (**paragraffau 1.12-1.13**).

1.48 Yn ei harolwg ym mis Chwefror 2021[6], canfu Cymdeithas Feddygol Prydain mai dim ond 37% (166 allan o 488) o ymatebwyr yng Nghymru ddywedodd fod Cyfarpar Diogelu Personol digonol yn cael ei ddarparu ar eu cyfer ar y pryd i gyflawni gweithdrefnau nad ydynt yn cynhyrchu aerosol, tra bo 44% wedi dweud nad oeddent yn teimlo ei fod yn ddigonol. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch pa Gyfarpar Diogelu Personol fyddai'n eu helpu i deimlo'n ddiogel mewn gweithdrefnau nad ydynt yn cynhyrchu aerosol, dywedodd 88% y byddai anadlyddion FFP3 yn helpu, a dywedodd 45% y byddai gynau untro llewys hir yn helpu. Nid yw'r naill na'r llall o'r eitemau hyn yn ofynnol yn ôl y canllawiau ar gyfer gweithdrefnau nad ydynt yn cynhyrchu aerosol.

1.49 Mae tystiolaeth a ddarparwyd gan CLILC yn cofnodi rhai pryderon dwys bod gweithwyr gofal cymdeithasol yn teimlo bod eu Cyfarpar Diogelu Personol yn annigonol. Mae nodiadau cyfoes o gyfarfodydd penaethiaid caffael (**paragraff 1.10**) ganol mis Mai 2020 yn cofnodi bod staff gofal cymdeithasol yn teimlo nad oeddent yn cael eu diogelu gan 'ddim byd ond ffedog dila dros ddillad stryd'. Eto, mae'r pryderon hyn i'w gweld fel pe baent yn adlewyrchu pryderon ynghylch natur y Cyfarpar Diogelu Personol sy'n ofynnol yn ôl y canllawiau yn hytrach na lefel y cyflenwad. Mae arolygon Arolygiaeth Gofal Cymru yn dangos bod barn darparwyr gofal cymdeithasol wedi gwella yn ystod mis Ebrill 2020. Yn ystod y pythefnos cyntaf dywedodd 11% o ddarparwyr cartrefi gofal ac 18% o ddarparwyr gofal cartref nad oedd ganddynt ddigon o Gyfarpar Diogelu Personol. Erbyn ail hanner mis Ebrill gostyngodd y ffigyrau hynny i 5% ac 8% yn y drefn honno.

6 Gadawodd Cymdeithas Feddygol Prydain i ni weld rhan o'i harolwg ym mis Chwefror 2021 yn gynnar, ond nid oeddem wedi gweld y set ddata lawn ar adeg drafftio.

1.50 Rydym hefyd yn ymwybodol bod gan rai aelodau o staff iechyd a gofal bryderon ynghylch ansawdd peth Cyfarpar Diogelu Personol ardystiedig. Roedd y rhain yn fach o ran nifer yn berthynol i swm y Cyfarpar Diogelu Personol ar y cyfan a gyflenwyd gan y Cydwasanaethau. Roedd y sbectols diogelwch a oedd yn cael eu dal yn y pentwr PIPP yn amhoblogaidd, yn rhannol am bod angen eu cydosod â llaw, ac fe'u tynnwyd yn ôl yn ddiweddarach am resymau eraill (gweler y nodyn am **Arddangosyn 2**). Roedd cwynion o blith staff hefyd ynghylch llid ar y croen a oedd yn cael ei achosi gan fygydau wyneb, ond nid oedd y rhain yn dynodi diffyg cydymffurfio â safonau diogelwch cynnyrch. Roedd mater ar wahân hefyd gyda sypyn o fenig nitril a oedd yn tueddu i rwygo wrth eu rhoi ymlaen. Roedd y rhain wedi'u camlabelu'n fenig nitril ac yn gymysgedd finyl nad archebwyd. Fe wnaeth y Cydwasanaethau hysbysu'r Awdurdod Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd ynghylch y mater, ac fe wnaeth y contractwr ddisodli'r sypyn o 16 miliwn o fenig â menig a oedd yn cyfateb i'r fanyleb gywir.

## Cydraddoldeb

1.51 Mae staff a grwpiau cynrychiolaidd wedi codi'r mater ynglŷn â theimlo nad oeddent wedi'u diogelu'n ddigonol am bod Cyfarpar Diogelu Personol ar y cyfan wedi'i ddylunio ar gyfer cyrff gwrywaidd generig. Roedd y mater hwn wedi cael ei nodi fel pryder ymhell cyn dechrau'r pandemig. Yn gynnar yn y pandemig, canfuwyd mater gyda ffit math penodol o fasg. Nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ddull i wella'r ffit a lleihau methiannau mewn profion ffitio. Rhannodd fideo ar draws GIG Cymru i helpu i wella ffit y masgiau ar gyfer ystod ehangach o staff gofal iechyd. Fe arweiniodd y defnydd o beiriannau ar gyfer profion ffitio at ostyngiad mewn cyfraddau methu hefyd.

1.52 Mae Llywodraeth Cymru a'r Cydwasanaethau'n ymwybodol o'r pryderon hyn ynghylch ffit Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer grwpiau penodol. Fe ddwedon nhw wrthym fod llawer o weithgynhyrchwyr, gan gynnwys gweithgynhyrchwr yng Nghymru, yn datblygu cynhyrchion â photensial i gynnig ffit fwy pwrpasol ar gyfer gwahanol fathau o wynebau a chyrff. Fodd bynnag, hyd y gwyddant, nid yw'r eitemau hyn wedi cael eu hardystio'n llawn eto.

1.53 Mae pryderon ynghylch cydraddoldeb wedi cael eu codi hefyd gan grwpiau sydd wedi nodi bod methu â gweld wyneb gofalwr yn niweidiol i ofal mewn rhai achosion. Awgrymwyd defnyddio masgiau wyneb clir. Fodd bynnag, nid yw'r dyluniad blaenllaw a brynwyd gan Lywodraeth y DU, ar ran holl wledydd y DU, wedi cael ei ardystio'n Gyfarpar Diogelu Personol eto ac felly dim ond lle mae defnyddiwr wedi cwblhau asesiad risg ac yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch y gellir ei ddefnyddio.

## Achosion a marwolaethau

1.54 Bu nifer o achosion o COVID-19 mewn ysbytai yng Nghymru hefyd[7], ond nid oed gennym dystiolaeth i gadarnhau cyswllt achosol rhwng yr achosion hyn a Chyfarpar Diogelu Personoll. Mae rhai byrddau iechyd wedi adolygu'r ffactorau a gyfrannodd at achosion unigol, gan gynnwys cysylltiadau posibl â chydymffurfiaeth staff â chanllawiau ynghylch Cyfarpar Diogelu Personol. Byddai angen gwaith pellach i ddeall yn llawn unrhyw ran y gallai Cyfarpar Diogelu Personol, fel rhan o fesurau i atal a rheoli heintiau ar y cyfan, fod wedi'i chwarae.

7 Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyhoeddi data ar nifer yr achosion 'tebygol' a 'phendant' o drosglwyddo mewn ysbytai ar ei wefan data COVID-19.

1.55 Mae sawl aelod o staff iechyd a gofal wedi dal COVID-19, ac yn drist mae rhai o'r bobl hynny wedi marw. Ceir data cyhoeddedig gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol[8] ar achosion a marwolaethau'n gyffredinol ac mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi darparu data ar ein cyfer ynghylch yr hysbysiadau y mae wedi'u cael[9]. Fodd bynnag mae cyfyngiadau amrywiol wedi'u nodi gyda'r data yn y ddau achos ac mae angen cymryd gofal wrth ddehongli'r canfyddiadau. Nid oes gennym dystiolaeth galed bod unrhyw un o'r achosion na'r marwolaethau hyn wedi cael eu hachosi gan gyswllt galwedigaethol, nac yn fwy penodol gan brinder Cyfarpar Diogelu Personol addas.

1.56 Ni wnaethom archwilio'r materion hyn ac unrhyw achosion sylfaenol posibl mewn mwy o fanylder fel rhan o'n gwaith. Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio wrthym bod gan GIG Cymru brosesau sydd wedi hen ennill eu plwyf i sicrhau yr hysbysir yn briodol ynghylch marwolaethau staff a chleifion, yr ymchwilir yn llawn iddynt a, lle y bo'n briodol, eu bod yn cael eu hatgyfeirio at y crwner. O'r prosesau hyn y bydd hi a GIG Cymru yn cael tystiolaeth ar unrhyw fethiannau systemig posibl, gan gynnwys yn y cyflenwad neu'r defnydd o Gyfarpar Diogelu Personol, sydd wedi arwain at farwolaethau o COVID-19 sy'n gysylltiedig â gwaith. Yn ei adroddiad ym mis Chwefror 2021, fe argymhellodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y DU fod Llywodraeth y DU yn cynnal adolygiad i ganfod a oes unrhyw gysylltiadau rhwng prinder Cyfarpar Diogelu Personol a heintiau a marwolaethau ymhlith staff.

8 Dengys data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol fod 23 o weithwyr gofal cymdeithasol a 34 o weithwyr y GIG wedi marw yng Nghymru rhwng 9 Mawrth a 28 Rhagfyr 2020. Nid yw;r dadansoddiad yn profi i'r carn bod cyfraddau'r marwolaethu sy'n ymwneud â COVID-19, o anghenraid, yn cael eu hachosi gan wahaniaeth mewn cysylltiad galwedigaethol. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Marwolaethau a oedd yn ymwneud â'r coronafeirws (COVID-19) ymhlith gweithwyr iechyd a gofal yng Nghymru a Lloegr, marwolaethau a gofrestrwyd rhwng 9 Mawrth a 28 Rhagfyr 2020, rhyddhawyd 28 Ionawr 2021.

9 O dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 2013 (RIDDOR), mae dyletswydd ar gyflogwyr i hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ynghylch achosion lle mae gweithiwr wedi cael diagnosis COVID-19 a lle mae tystiolaeth resymol i awgrymu ei fod wedi cael ei achosi gan gysylltiad galwedigaethol am ba bynnag reswm. O 1,696 o hysbysiadau rhwng 10 Ebrill 2020 a 9 Ionawr 2021, roedd 1,156 yn ymwneud â gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol. Ymhlith y 1,696 roedd 11 o hysbysiadau am farwolaethau, yr oedd saith ohonynt yn ymwneud â gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi ei gwneud yn glir yn ei Grynodeb technegol o ddata ar adroddiadau am glefyd y Coronafeirws (COVID-19) bod nifer o gyfyngiadau y dylid eu cadw mewn cof wrth ystyried y data hwn a'i gywirdeb.

# Caffael Cyfarpar Diogelu Personol

02

2.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn archwilio'r gwaith a arweiniwyd gan y Cydwasanaethau i gaffael Cyfarpar Diogelu Personol. Ym mis Mawrth 2020, dewisodd Llywodraeth Cymru fabwysiadu Nodyn Polisi Caffael 01/20 Swyddfa Cabinet y DU[10]. Mae'r Nodyn Polisi yn caniatáu, dan reoliad 32(2)(c) Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, caffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith heb gystadleuaeth na hysbysebu cyn belled â bod rhesymau dilys dros frys eithriadol. Roedd hyn yn golygu bod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'n gallu caffael Cyfarpar Diogelu Personol heb fynd drwy'r prosesau cystadleuol arferol. Fe fabwysiadodd Llywodraeth Cymru Nodyn Polisi Caffael 02/20[11] hefyd, sy'n caniatáu taliadau ymlaen llaw lle gwneir achos dros werth am arian. Mae'n ofynnol cael cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer unrhyw daliadau ymlaen llaw sy'n uwch na 25% o werth y contract.

2.2 Yn ystod mis Mawrth 2020 a thrwy fis Ebrill, cynhaliodd y Cydwasanaethau eu gweithgarwch eu hunain i gaffael Cyfarpar Diogelu Personol fel y gwnaeth cyrff llywodraeth leol ar ran y sector gofal cymdeithasol. Ar yr adeg hon, roedd y gweithgarwch caffael 'ar eu menter eu hunain' heb unrhyw warant y byddai unrhyw gyllid gan Lywodraeth y DU i dalu amdano. Ganol mis Mehefin 2020, cadarnhaodd Llywodraeth y DU wrth Lywodraeth Cymru y byddai'n cael cyllid i gaffael Cyfarpar Diogelu Personol trwy fformiwla Barnett[12].

## Gweithiodd gwasanaethau cyhoeddus gyda'i gilydd mewn ffordd fwyfwy cydweithredol i adnabod cyflenwyr Cyfarpar Diogelu Personol posibl ac ymateb iddynt

2.3 Yn nyddiau cynnar y pandemig, cynigiodd nifer o sefydliadau lleol gyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol. Penododd Llywodraeth Cymru Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru (HGBC) mewn rôl hwyluso i goladu'r holl gynigion o gymorth i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol ac adnabod busnesau priodol a fyddai o bosibl yn gallu cyflenwi eitemau ar restr cynhyrchion hanfodol GIG Cymru.

10 Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU, Nodyn Polisi Caffael – Ymateb i COVID-19, Nodyn Gwybodaeth PPN 01/20, Mawrth 2020

11 Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU, Nodyn Polisi Caffael – Rhyddhad cyflenwyr oherwydd y coronafeirws (COVID-19), Nodyn Gweithredu PPN 02/20, Mawrth 2020

12 Mae Fformiwla Barnett yn pennu sut y mae penderfyniadau i gynyddu neu ostwng gwariant yn Lloegr yn arwain at newidiadau i gyllidebau'r gweinyddiaethau datganoledig.

2.4 Sefydlodd HGBC borth ar-lein i'r diwydiant lanlwytho cynigion o gymorth. Gan ddefnyddio canllawiau a ddarparwyd gan Labordy Profi Deunyddiau Llawfeddygol y Cydwasanaethau a'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (GCC), fe adolygodd HGBC geisiadau gan gyflenwyr ac arnynt eisiau gwerthu Cyfarpar Diogelu Personol a chynhyrchion a gwasanaethau eraill. Roedd yr adolygiadau hyn yn cynnwys sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion o ran ansawdd a rhai gwiriadau busnes safonol. Cafodd cynigion cymwysedig o gynhyrchion eu hanfon ymlaen at y Cydwasanaethau i symud cynigion ymlaen i'r broses gaffael.

2.5 Cafodd HGBC ymholiadau ynghylch cyflwyno cynhyrchion a gwasanaethau eraill yn rhodd hefyd, ac fe gyfeiriodd y rhain at sefydliadau GIG Cymru. Cafodd ymholiadau ynghylch ysbytai maes, cynhyrchu cynhyrchion gwisgadwy, a gwirfoddoli gan weithwyr gofal iechyd a'r cyhoedd eu hatgyfeirio gan HGBC at y cyrff priodol.

2.6 O ran y sefyllfa ar 26 Hydref 2020, roedd HGBC wedi rheoli 2,285 o ymholiadau, gan atgyfeirio 556 at y GIG, Llywodraeth Cymru a sefydliadau perthnasol eraill (**Arddangosyn 9**). Roedd tri chwarter yr ymholiadau a frysbennwyd ond na chawsant eu hanfon ymlaen gan HGBC yn rhai a wrthodwyd am resymau megis bod dogfennaeth anghyflawn wedi dod i law, eu bod heb lwyddo yn y gwiriadau diwydrwydd dyladwy cychwynnol, a bod cynhyrchion a phrosesau y tu allan i'r cwmpas a heb eu cynnwys ar y rhestr cynhyrchion hanfodol.

**Arddangosyn 9: cynigion o gynhyrchion a gwasanaethau mewn ymateb i COVID-19 a atgyfeiriwyd gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru**

| Math o gynnyrch | Sefydliad a gafodd yr atgyfeiriad | Nifer yr atgyfeiriadau |
|---|---|---|
| Dyfeisiau rheoli heintiau (gan gynnwys Cyfarpar Diogelu Personol) a meddygol | Y Cydwasanaethau | 226 |
| Datrysiadau meddygol | Cell Iechyd Digidol Llywodraeth Cymru | 165 |
| Profion pwynt gofal | Iechyd Cyhoeddus Cymru | 22 |
| Arall | Diwydiant Cymru, Llywodraeth Cymru ac eraill | 143 |
| **Cyfanswm** | | **556** |

Ffynhonnell: Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru

2.7 Mae'r Tîm Peirianneg Gofynion Cyfarpar Hanfodol (CERET), a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2020, yn cydweithio'n agos gyda gweithgynhyrchwyr yng Nghymru a ddynododd y gallent o bosibl ehangu i weithgynhyrchu Cyfarpar Diogelu Personol gyda pheth cymorth. Gweithiodd CERET gyda Busnes Cymru i wahodd datganiadau o ddiddordeb, gyda Busnes Cymru yn adrodd ar y canlyniadau canlynol:

- mae dros 30 o gwmnïau wedi ailbwrpasu eu llinellau cynhyrchu i ddarparu hylif diheintio dwylo
- mae 25 o gwmnïau wedi ailbwrpasu eu llinellau cynhyrchu i wneud fisorau wyneb
- mae 9 cwmni erbyn hyn sydd wedi buddsoddi mewn peiriannau i gynhyrchu masgiau wyneb a gorchuddion wyneb o radd glinigol, ac mae pump o'r cwmnïau hyn bellach yn gallu masgynhyrchu er nad ydynt wedi ennill contractau i gyflenwi'r GIG eto (**paragraff 2.48**)

2.8 Roedd y Cydwasanaethau'n wynebu her cadwyni cyflenwi byd-eang rhanedig, gan bod gwledydd wedi gosod cyfyngiadau ar allforio a'r galw'n uchel wrth i'r pandemig gydio ledled y byd. Nid oedd llawer o gyflenwyr presennol yn gallu cyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol yn y niferoedd ac ar y cyflymder a oedd yn ofynnol. Felly bu'n rhaid i'r Cydwasanaethau gaffael Cyfarpar Diogelu Personol gan ddefnyddio'u rhwydwaith o gysylltiadau, trwy drefn lle'r oedd cyflenwyr yn cysylltu â hwy eu hunain a thrwy atgyfeiriadau eraill. Mewn rhai achosion, dywedodd y Cydwasanaethau wrthym fod rhaid iddynt weithio gydag asiantau a oedd â'r cysylltiadau cywir â'r gweithgynhyrchwyr allweddol. Mewn o leiaf un achos, roedd hyn yn golygu caffael cynhyrchion yn uniongyrchol o ffatri a oedd yn cyflenwi'r cwmnïau byd-eang yr oedd y Cydwasanaethau wedi methu â chaffael Cyfarpar Diogelu Personol ganddynt.

2.9 Dywed y Cydwasanaethau a Llywodraeth Cymru na fu ganddynt erioed ddull a oedd yn cyfateb i'r un 'llwybr blaenoriaeth uchel' dau drywydd o adnabod cyflenwyr posibl a ddisgrifir gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ei hadroddiad ar weithgarwch caffael y Llywodraeth yn Lloegr yn ystod pandemig COVID-19. Yn ein hadolygiad ni o ddogfennaeth gaffael, ni chanfuom unrhyw dystiolaeth o ddull o'r fath nac o gyflenwyr yn cael triniaeth ffafriol oherwydd y sawl a'u hatgyfeiriodd.

2.10 Dywedodd y Cydwasanaethau a HGBC wrthym fod atgyfeiriadau gan wleidyddion yn mynd trwy'r un broses, yr un drefn graffu a'r un drefn blaenoriaethu ag unrhyw gysylltiadau eraill. Yn ein profion ni o samplau ni welsom sôn am unrhyw atgyfeiriad yn dod oddi wrth wleidyddion. Canfuom un enghraifft lle'r oedd un o gyfarwyddwyr cyflenwr yn adnabyddus i aelod o'r grŵp a sefydlwyd gan y Cydwasanaethau i graffu ar geisiadau i godi archebion. Cafodd hyn ei ddatgan yn briodol yn y cyngor i benderfynwyr.

## Ar y cyfan, datblygodd Llywodraeth Cymru a'r Cydwasanaethau drefniadau da i reoli'r risgiau a oedd yn gysylltiedig â chaffael Cyfarpar Diogelu Personol mewn marchnad ranedig ond ni wnaethant gyhoeddi manylion contractau ar amser

### Risgiau o ran amseroldeb

2.11 Roedd y sefyllfa anodd gyda stociau, yn enwedig yn wythnosau cynnar y pandemig (**paragraffau 1.27 i 1.29**) yn golygu bod y Cydwasanaethau dan bwysau sylweddol i gaffael Cyfarpar Diogelu Personol yn gyflym iawn. Er ei bod yn cydnabod pwysigrwydd gwneud penderfyniadau mewn modd amserol, nododd Llywodraeth Cymru mewn llythyr dyddiedig 30 Mawrth 2020 at gyrff y GIG ei bod yn dal i ddisgwyl trefniadau llywodraethu da mewn perthynas â phenderfyniadau ynglŷn â gwariant. Roedd y llythyr yn cydnabod yr angen i addasu trefniadau ar sail interim ac yn cynnwys canllawiau ar reolaeth ac adrodd ariannol, gan gynnwys disgwyliadau a oedd yn ymwneud â bod yn glir ynghylch dirprwyo awdurdod am wneud penderfyniadau a chofnodi penderfyniadau a'r sail resymegol ategol.

2.12 I gyflymu prosesau penderfynu, cytunodd Bwrdd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ar newidiadau i gynllun dirprwyo'r Ymddiriedolaeth ei hun a chynllun dirprwyo'r Cydwasanaethau. Ar 18 Mawrth 2020, diwygiwyd y rhain i ganiatáu i Gadeirydd a Rheolwr Gyfarwyddwr y Cydwasanaethau awdurdodi gwariant hyd at £2 filiwn (i fyny o £100,000), gyda'r terfyn yn cael ei gynyddu i £5 miliwn ar 30 Mawrth 2020. Roedd angen i bob cymeradwyaeth dros y terfynau hyn fynd trwy Fwrdd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Hefyd, mae'r gofyniad i gael cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i wariant dros £1 filiwn wedi aros yn ei le trwy gydol y cyfnod.

2.13 Ar y cyfan, fe wnaeth y trefniadau alluogi'r Cydwasanaethau i wneud penderfyniadau cyflym a chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol yn gyflym. Rydym yn deall bod hyn wedi cael ei gyflawni o fewn y capasiti a oedd eisoes yn bodoli o ran staff. Rydym yn cydnabod bod hyn wedi rhoi pwysau sylweddol ar yr unigolion dan sylw, sydd wedi bod yn gweithio'n hwyr yn y nos ac yn ystod oriau mân y bore i ymdrin â chyflenwyr dramor ac i gymryd galwadau gan staff rheng flaen a oedd yn bryderus. Gwelsom dystiolaeth bod Bwrdd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre a Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn gyflym i roi cymeradwyaethau ac osgoi oedi. Mae **Arddangosyn 10** yn darparu astudiaeth achos sy'n dangos y graddfeydd amser cyflym a'r cydweithio yr oedd caffael Cyfarpar Diogelu Personol yn eu golygu.

**Arddangosyn 10: llinell amser caffael a chyflenwi gynau llawfeddygol o Gambodia, Ebrill 2020**

### Ebrill 21

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dweud wrth gynhadledd i'r wasg mai dim ond gwerth diwrnodau o Gyfarpar Diogelu Personol sydd gan Gymru.

### Ebrill 22

19:50 Y Cydwasanaethau'n cael gwybod am drywydd gan gwmni yng Ngogledd Iwerddon ar gyflenwad posibl o ynau o Gambodia. O fewn awr, mae'r Cydwasanaethau wedi ceisio cymeradwyaeth mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru, yn amodol ar ddiwydrwydd dyladwy a oedd eisoes yn mynd rhagddo.





### Ebrill 23

Cyn 08:00 Llywodraeth Cymru yn rhoi cymeradwyaeth mewn egwyddor.

11:30 Y Grŵp Llywodraethu Cyllid yn cwrdd i graffu ar ddogfennaeth ac yn gofyn am wiriadau pellach ar y cwmni ac i negodi ar daliad ymlaen llaw a'r pris.

13:30 Y Cydwasanaethau'n cwrdd yn rhithwir â chyfarwyddwyr y cwmni i drafod materion, gan gynnwys y pris, a deall strwythur a chefndir y cwmni.

5:00 Y Grŵp Llywodraethu Cyllid yn cael gwybodaeth am y sefyllfa ddiweddaraf, gan gynnwys pris is a thaliad ymlaen llaw.

16:00 Y Labordy Profi Deunyddiau Llawfeddygol yn cadarnhau bod y cynhyrchion yn rhai â'r ardystiad cywir.

### Ebrill 24

Y Cydwasanaethau'n llogi awyren o Gambodia i Faes Awyr Caerdydd.



### Ebrill 25

Y Cydwasanaethau'n cael cadarnhad bod y gynau wedi cael eu gweithgynhyrchu a'u bod ar dryciau yng Nghambodia. Daw'r Cydwasanaethau'n ymwybodol bod staff trafod llwythi ym Maes Awyr Caerdydd ar ffyrlo.

### Ebrill 26

Y Cydwasanaethau'n cytuno ar fecanwaith taliadau gyda Maes Awyr Caerdydd er mwyn i staff trafod llwythi roi'r gorau i fod ar ffyrlo ac maent yn gofyn am gymorth y fyddin i ddadlwytho'r awyren.

### April 27

Y gynau'n cyrraedd Maes Awyr Caerdydd. Mae'r fyddin, staff y Cydwasanaethau a Maes Awyr Caerdydd ac eraill yn rhan o ddadlwytho. Mae rhai'n mynd i'r storfeydd canolog, caiff rhai eu dosbarthu'n uniongyrchol i ysbytai yng Nghymru a chaiff rhai eu hanfon fel cydgymorth i rannau eraill o'r DU.



Ffynhonnell: Adolygiad Archwilio Cymru

## Risgiau ariannol

2.14 Roedd ceisio caffael Cyfarpar Diogelu Personol prin mewn marchnad fyd-eang ranedig a hynod gystadleuol yn creu risgiau ariannol sylweddol. Roedd llawer o'r cwmnïau a oedd yn cynnig Cyfarpar Diogelu Personol naill ai'n newydd neu wedi ehangu i faes Cyfarpar Diogelu Personol yn ddiweddar a heb ryw lawer o hanes. Roedd risgiau sylweddol o weithgarwch twyllodrus. Ac roedd gofynion ariannol newydd, yn anad dim gofyniad gan nifer o gwmnïau i gael taliad ymlaen llaw.

2.15 Sefydlodd y Cydwasanaethau Grŵp Llywodraethu Cyllid (GLIC) traws-broffesiwn newydd yn gynnar ym mis Ebrill 2020 i reoli risgiau gan ei gwneud yn bosibl gwneud penderfyniadau'n gyflym ynglŷn â chaffael mewn perthynas â COVID-19. Mae **Atodiad 2** yn nodi aelodaeth y GLIC a oedd hefyd yn cynnwys aelodau o Fwrdd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Mae cyfarfodydd y GLIC yn ystyried contractau posibl ar gyfer Cyfarpar Diogelu Personol y mae'r naill neu'r llall neu'r ddau o'r canlynol yn wir amdanynt:

a bod angen cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r taliad ymlaen llaw gan ei fod yn 25% neu fwy o werth y contract (**paragraff 2.1**).

b bod angen cymeradwyaeth ffurfiol gan Fwrdd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

Rôl y grŵp yw sicrhau craffu a gwiriadau priodol cyn bod ceisiadau i godi archebion yn cael eu hanfon i'w cymeradwyo (**Arddangosyn 11**).

**Arddangosyn 11: rôl y Grŵp Llywodraethu Cyllid yn y broses cymeradwyo contractau**

**Gwasanaethau Caffael yn cyflwyno rhestr wirio i'r GLIC**

Mae'r rhestr wirio'n cynnwys:
- yr angen am y cynnyrch
- pris a chostau
- manylion y cyflenwr a diwydrwydd dyladwy a gyflawnwyd
- cydymffurfiaeth â safonau ansawdd
- graddfeydd amser ar gyfer danfon
- rheolau caffael a gymhwysir
- y gymeradwyaeth y mae ei hangen
- dulliau talu

**Y GLIC yn craffu ar y rhestr wirio**

Y GLIC yn cwblhau taflen benderfynu sy'n nodi ei ystyriaethau allweddol a'i benderfyniad / argymhelliad.

**Y GLIC yn anfon y rhestr wirio a'r daflen benderfynu at gymeradwyw(yr) yr archeb**

Ffynhonnell: Adolygiad Archwilio Cymru

2.16 Fe wnaethom adolygu'r gwiriadau a sefydlwyd ar sampl o 16 o gontractau a osodwyd gan y Cydwasanaethau. Roedd ein sampl yn cynnwys y contractau mwy/â mwy o risg a adolygwyd gan y GLIC yn ogystal â rhai contractau llai na chawsant eu hystyried (**Atodiad 1**). Canfuom, ym mhob achos, fod trywydd tystiolaeth wedi'i ddogfennu, a oedd yn amlygu'r materion a risgiau allweddol a sut y byddent yn cael eu rheoli. Roedd yr holl benderfyniadau a adolygwyd gennym ni wedi cael eu gwneud yn unol â'r prosesau gofynnol, ac roedd y cymeradwyaethau dilynol i'r archebion yn gyson â chynllun dirprwyo'r Cydwasanaethau a gofynion Llywodraeth Cymru.

2.17 Roedd y pwysau i sicrhau Cyfarpar Diogelu Personol yn golygu nad oedd wastad yn bosibl cyflawni diwydrwydd dyladwy i'r un lefel ag y byddai y tu allan i bandemig mewn proses dendro gystadleuol arferol. Fodd bynnag, ar gyfer pob contract a adolygwyd gennym, canfuom dystiolaeth o wiriadau diwydrwydd dyladwy allweddol yn cael eu cyflawni. Roedd y rhain yn cynnwys gwirio cefndir y cwmnïau a oedd yn cynnig bod yn gyflenwyr. Mewn rhai achosion, roedd y cwmnïau'n edrych fel pe baent yn gwbl newydd i'r farchnad Cyfarpar Diogelu Personol. Fodd bynnag, o'u harchwilio ymhellach gwelwyd fod ganddynt chwaer gwmni neu eu bod yn rhan o grŵp â phrofiad yn y farchnad Cyfarpar Diogelu Personol. Mewn achosion eraill, roedd y cwmnïau'n newydd, ond roedd gan eu Cyfarwyddwyr fynediad hygred at weithgynhyrchwyr Cyfarpar Diogelu Personol.

2.18 Mae ein canfyddiadau ar gymeradwyaethau'n cadarnhau canfyddiadau adolygiad archwilio mewnol o drefniadau llywodraethu ariannol y Cydwasanaethau, gan gynnwys gwariant ar Gyfarpar Diogelu Personol a gwariant arall a oedd yn gysylltiedig â COVID-19, yr adroddwyd arno ym mis Hydref 2020. Canfu y cydymffurfiwyd â'r gweithdrefnau o ran gwiriadau cefndir, cymeradwyaethau a chofnodi penderfyniadau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru a'r GIG ym mhob achos. Nododd hefyd fod gwelliannau wedi bod i'r trefniadau llywodraethu ariannol ac ansawdd dogfennaeth dros y cyfnod.

2.19 Mae'r GLIC yn monitro archebion sy'n cynnwys taliadau ymlaen llaw i sicrhau bod y cynhyrchion yn dod i law. Ar gyfer naw archeb a adolygwyd gan y GLIC cafodd taliadau ymlaen llaw eu gwneud trwy gyfrif 'ysgrow'. Dywedodd y Cydwasanaethau a Llywodraeth Cymru wrthym fod y dull hwn wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer contractau o faint sylweddol neu gyflenwyr risg uwch newydd. Roedd y trefniadau'n golygu bod y cyflenwyr yn gallu gweld bod y cyllid yn ei le ond nad oeddent yn gallu tynnu'r arian i lawr nes bod y nwyddau wedi dod i law ac wedi cael eu gwirio.

2.20 Fe ganslodd y Cydwasanaethau bedair archeb y gwnaed taliadau ymlaen llaw amdanynt ac a oedd wedi cael eu hadolygu gan y GLIC. Roedd dau o'r taliadau ymlaen llaw hyn wedi cael eu gwneud trwy gyfrif 'ysgrow'. Cafwyd ad-daliadau llawn am dair archeb ac ar gyfer un archeb fe drosglwyddwyd y taliad a wnaed ymlaen llaw i archeb arall gyda'r un cyflenwr.

2.21 Er gwaethaf y brys, nid oedd dull cyffredinol o brynu Cyfarpar Diogelu Personol beth bynnag oedd y gost. Yn anochel, mewn marchnad a oedd i bob pwrpas yn farchnad gwerthwyr, roedd prisiau'n uwch (**paragraff 2.44**). Gwelsom enghraifft lle cofnododd y Cydwasanaethau eu bod wedi blaenoriaethu darparwr ychydig yn ddrutach dros un rhatach, am y byddai'n gallu cyflenwi'n gyflymach. Serch hynny, gwelsom enghreifftiau lle gwnaeth y Cydwasanaethau negodi pris is. Ar gyfer un archeb, fe wnaeth cost uned ar gyfer menig a negodwyd i ddwy ran o dair o gost uned a gynigiwyd gan gyflenwr gwahanol osgoi gwariant o £6.5 miliwn. Fe wnaeth y Cydwasanaethau osgoi costau hefyd trwy negodi cludiant ar gyfer llwythi o Gyfarpar Diogelu Personol mewn llong ac nid mewn awyren ar gyfer rhai archebion.

2.22 Fe wnaeth data meincnodi a gyflwynwyd i'r GLIC, gan gynnwys data hanesyddol a data o rannau eraill o'r DU, osod paramedrau ar gyfer yr hyn yr oedd y Cydwasanaethau'n barod i'w dalu. Ni wnaeth y Cydwasanaethau fwrw ymlaen ag un contract lle'r oedd wedi llwyddo'n ddiweddarach i gael yr un Cyfarpar Diogelu Personol am bris is.

2.23 O ran y sefyllfa ar ddiwedd mis Rhagfyr 2020 roedd y GLIC wedi adolygu 43 o gontractau arfaethedig, yr oedd bron pob un ohonynt yn gysylltiedig â Chyfarpar Diogelu Personol. Roedd pedwar contract pellach yr ymrwymwyd iddynt yn hwyr ym mis Mawrth ac yn gynnar iawn ym mis Ebrill 2020 cyn i'r GLIC gael ei sefydlu. Roedd pedwar contract pellach hefyd a ddylai fod wedi cael, ond na chawsant, eu hadolygu gan y GLIC. Nododd Tîm Archwilio Mewnol y Cydwasanaethau fod awdurdodiad priodol yn ei le ar gyfer pob archeb ar gyfer contract. Fe wnaeth rhai o'r contractau a ystyriwyd beidio â mynd yn eu blaenau neu fe'u canslwyd yn ddiweddarach.

2.24 O ran y sefyllfa ym mis Ionawr 2021, roedd cyfanswm o 37 o archebion mewn perthynas â Chyfarpar Diogelu Personol a oedd naill ai wedi, neu a ddylai fod wedi, bod trwy'r GLIC[13] wedi cael eu danfon, neu roedd disgwyl iddynt gael eu danfon. O'r 37 o archebion hynny, roedd 16 gyda chyflenwyr presennol a 21 gyda chwmnïau a oedd yn newydd i'r Cydwasanaethau. Daeth oddeutu hanner yr archebion gyda chyflenwyr newydd o gwmnïau a oedd yn newydd i'r farchnad Cyfarpar Diogelu Personol, yr oedd chwech ohonynt gyda'r un cyflenwr newydd.

13 Mae'r 37 hyn yn cynnwys y pedair archeb a osodwyd cyn i'r GLIC ddechrau cwrdd. Fe ddewisom ni ddadansoddi'r is-set hon o 37 o archebion yn hytrach na'r holl archebion gan eu bod yn cynnwys y rhan fwyaf o'r gwariant ar Gyfarpar Diogelu Personol a chan nad ydynt yn cynnwys llawer o gontractau llai, â risg is.

## Risgiau i ansawdd

2.25 Roedd pryderon cyffredinol, yn enwedig ar ddechrau'r pandemig, bod masnachwyr anonest yn cynnig Cyfarpar Diogelu Personol ffug. Rhaid i Gyfarpar Diogelu Personol gyrraedd safonau ardystio llym. Fe weithiodd Gwasanaethau Caffael y Cydwasanaethau'n agos gyda'r Labordy Profi Deunyddiau Llawfeddygol, sydd wedi'i leoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr, i brofi ansawdd Cyfarpar Diogelu Personol. Ar gyfer rhai archebion, roedd hyn yn golygu gwirio bod yr ardystiad a ddarparwyd yn ddilys. Rydym yn deall bod y Labordy Profi Deunyddiau Llawfeddygol wedi canfod 37 o dystysgrifau twyllodrus a oedd yn cael eu cynnig gan ddarpar gyflenwyr. Mewn rhai achosion, fe gynhaliodd y Labordy Profi Deunyddiau Llawfeddygol brofion ar sampl o'r cynnyrch. Fe weithiodd y Labordy Profi Deunyddiau Llawfeddygol yn agos gyda gweithgynhyrchwyr cartref hefyd i'w helpu i sicrhau ardystiad.

2.26 Fel a nodwyd ym **mharagraff 2.19**, roedd y Cydwasanaethau wedi'u diogelu rhag colli taliad ymlaen llaw lle nad oedd y Cyfarpar Diogelu Personol wedi'i ardystio fel a ddisgrifiwyd. Roedd dwy enghraifft lle na fwriwyd ymlaen ag archebion arfaethedig a gyflwynwyd i'r GLIC am nad oedd y Cyfarpar Diogelu Personol yn ateb y gofynion o ran ansawdd. Ac eithrio'r enghraifft unigol a oedd yn ymwneud â menig wedi'u camlabelu (**paragraff 1.50**), ni welsom unrhyw dystiolaeth o enghreifftiau, fel y rhai a ddisgrifiwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn Lloegr, lle prynwyd Cyfarpar Diogelu Personol yn ganolog a lle barnwyd nad oedd yn addas ar gyfer y diben.

2.27 Mae nodiadau cyfoes a gadwyd gan CLILC yn cofnodi bod cyrff llywodraeth leol wedi prynu peth Cyfarpar Diogelu Personol â thystysgrifau twyllodrus yng nghyfnod cynnar y pandemig a bod rhywfaint o hwn mwy na thebyg wedi cael ei ddefnyddio gan staff rheng flaen. Roedd y pryniannau hyn y tu allan i'r broses gwrio ansawdd a sefydlwyd gan y Cydwasanaethau. Nid ydym wedi ceisio gwirio maint a natur y pryniannau hyn na sut y gwnaeth cyrff llywodraeth leol reoli'r risgiau.

## Risgiau o ran tryloywder

2.28 Yn niffyg cystadleuaeth dryloyw, gall cyrff cyhoeddus gynnal hyder y cyhoedd trwy adrodd yn agored ar fanylion contractau a osodir dan bwerau argyfwng. Mae Nodyn Polisi Caffael Swyddfa'r Cabinet (**paragraff 2.1**) yn nodi y dylai hysbysiad dyfarnu contract gael ei gyhoeddi o fewn 30 diwrnod i ddyfarnu contract uniongyrchol. Yng Nghymru, mae dyfarniadau contract uwchlaw'r trothwyon perthnasol a nodir yn Rheoliadau Contractau Cyhoeddus y DU 2015 yn cael eu cyhoeddi ar wefan GwerthwchiGymru Llywodraeth Cymru. Cyn diwedd Cyfnod Pontio Brexit, roedd GwerthwchiGymru yn cyhoeddi hysbysiadau dyfarnu contract yn awtomatig i fersiwn ar-lein Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (Tenders Electronic Daily). Mae GwerthwchiGymru bellach yn eu cyhoeddi ar y gwasanaeth Find a Tender, gwasanaeth e-hysbysu newydd ar gyfer y DU.

2.29 Roedd pob un o'r 16 o gontractau a gafodd eu cynnwys yn ein gwaith i brofi sampl o wariant yn ddyfarniadau uniongyrchol oherwydd brys eithriadol. Mae'r Cydwasanaethau wedi cyhoeddi hysbysiadau dyfarnu contract llawn ar gyfer naw. O'r saith sy'n weddill:

- roedd pum contract yn ymwneud â'r un cyfryngwr. Ar gyfer pedwar o'r rhain, fe gyhoeddodd y Cydwasanaethau hysbysiadau dyfarnu contract a oedd yn cwmpasu ffioedd yr asiantau ar gyfer ystod o wasanaethau ond nid y contract ar wahân ar gyfer yr eitemau o Gyfarpar Diogelu Personol. Dywedodd y Cydwasanaethau wrthym fod y contractau'n rhai gyda gweithgynhyrchwyr o'r tu allan i'r UE ac felly nad oedd angen iddynt gyhoeddi hysbysiad dyfarnu contract. Nid oeddem yn gallu dod o hyd i esemptiad o'r fath yn y rheoliadau na'r canllawiau perthnasol. Ar gyfer un o'r contractau, fe gyhoeddodd y Cydwasanaethau hysbysiad dyfarnu contract, ond cafodd ei ddrafftio fel pe bai'r cyfryngwr wedi darparu'r Cyfarpar Diogelu Personol ac nid oedd yn cyfeirio at y contract ar wahân yr oedd y Cydwasanaethau wedi cytuno arno gyda'r gweithgynhyrchwr.
- ar gyfer un contract, cyhoeddodd y Cydwasanaethau fath gwahanol o hysbysiad – Hysbysiad Tryloywder Rhag Blaen Gwirfoddol (VEAT)[14] – ond nid hysbysiad dyfarnu contract llawn. Dywedodd y Cydwasanaethau wrthym, gan eu bod wedi cyhoeddi hysbysiad VEAT, nad oedd angen iddynt gyhoeddi hysbysiad dyfarnu contract llawn. Nid oeddem yn gallu dod o hyd i unrhyw esemptiad o'r fath yn y rheoliadau na'r canllawiau perthnasol.
- roedd y contract terfynol yn cynnwys taith mewn awyren a gafodd ei chaffael trwy'r fyddin a'r GIG yn Lloegr. Dywedodd y Cydwasanaethau wrthym nad oedd angen iddynt gyhoeddi hysbysiad ar gyfer y contract hwn.

2.30 O'r naw hysbysiad dyfarnu contract llawn a gyhoeddwyd yn ein sampl, ni chyhoeddwyd yr un ohonynt o fewn 30 diwrnod i ddyfarnu'r contract. Wrth eu hadolygu, canfuom fod dyddiadau anghywir ar nifer ohonynt ar gyfer y dyddiad y dyfarnwyd y contract. Mae'r Cydwasanaethau'n cywiro'r gwallau hyn. Ar gyfer dau gontract yn ein sampl, fe gyhoeddodd y Cydwasanaethau Hysbysiadau Tryloywder Rhag Blaen Gwirfoddol o fewn 30 diwrnod i osod y contract, er nad yw hyn yn ofyniad ar gyfer Hysbysiadau Tryloyw Rhag Blaen Gwirfoddol a gyhoeddir fel arfer cyn gosod contract.

14 Hysbysiad Tryloywder Rhag Blaen Gwirfoddol (VEAT) oedd hwn, a ddefnyddir i roi hysbysiad rhag blaen o'r bwriad i osod contract. Fodd bynnag, cafodd yr Hysbysiad Tryloywder Rhag Blaen Gwirfoddol yn yr achos hwn ei gyhoeddi ar ôl gosod y contract.

2.31 Dywedodd y Cydwasanaethau wrthym fod eu staff wedi bod dan bwysau ac y bu angen iddynt ganolbwyntio ar flaenoriaeth sicrhau Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer staff rheng flaen. Dywedodd y Cydwasanaethau wrthym nad oeddent felly'n gallu rhoi blaenoriaeth i gyhoeddi hysbysiadau dyfarnu contract. Dywedodd y Cydwasanaethau wrthym hefyd fod oedi wedi bod cyn cyhoeddi hysbysiadau dyfarnu contract ar gyfer rhai archebion oherwydd anawsterau gyda chael cyflenwyr i gofrestru ar GwerthwchiGymru.

2.32 Bu adrodd a chraffu rheolaidd ar wariant mewn perthynas â COVID-19 o fewn fframwaith llywodraethu'r Cydwasanaethau. Cyhoeddodd y Cydwasanaethau'r adroddiad Archwilio Mewnol ar eu gwefan fel rhan o bapurau'r pwyllgor archwilio. Fodd bynnag, yn ein barn ni gallent gynyddu hyder y cyhoedd yn y broses gaffael yng Nghymru trwy wneud manylion eu contractau ar gyfer Cyfarpar Diogelu Personol yn hawdd cael mynediad atynt. Rydym ni'n meddwl ei bod yn werth bod mor dryloyw â phosibl a choladu gwybodaeth nad yw'n gyfrinachol yn fasnachol mewn un lle. Byddai'n anodd iawn i'r cyhoedd neu'r rhai a chanddynt ddiddordeb gael trosolwg o gontractau Cyfarpar Diogelu Personol o wefan GwerthwchiGymru heb iddynt fod â gwybodaeth drylwyr yn barod.

## Risgiau moesegol

2.33 Mae disgwyl i'r holl gyrff cyhoeddus ymlynu wrth ganllawiau Llywodraeth Cymru ar gadwyni cyflenwi moesegol ym maes caffael. Mae'r canllawiau'n cynnwys cyfeiriad at sicrhau nad yw cadwyni cyflenwi'n cynnwys caethwasiaeth ddynol fodern. Ni wnaed unrhyw newid i'r canllawiau hyn yn ystod y pandemig. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod y disgwyliad yn dal i fod, gan gydnabod y gallai cyd-destun pandemig gyfyngu ar yr hyn a oedd yn bosibl yn ymarferol.

2.34 Mae nodiadau CLILC o'r cyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru a'r Cydwasanaethau'n dangos, ar sawl achlysur, bod cynrychiolwyr llywodraeth leol wedi codi pryderon ac ymholiadau ynghylch sut i reoli'r risgiau bod caethwasiaeth ac arferion cyflogi anfoesegol yn gysylltiedig â gweithgynhyrchu Cyfarpar Diogelu Personol i Gymru.

2.35 Yn ein hadolygiad ni o ddogfennaeth y Cydwasanaethau ar gyfer Cyfarpar Diogelu Personol i'r GIG, ni welsom unrhyw gyfeiriadau penodol at arferion cyflogi moesegol wrth ystyried risgiau. Fe wnaeth adolygiad y Tîm Archwilio Mewnol o drefniadau llywodraethu ariannol y Cydwasanaethau (**paragraff 2.18**) ystyried cyflenwad moesegol. Canfu fod 'dim materion/pryderon wedi'u hadnabod gyda'r cwmnïau ar adeg prynu, ond oherwydd y brys gyda'r pandemig a'r angen i sicrhau cyfarpar; nid oedd hyn yn brif ystyriaeth wrth benderfynu pa gyflenwr i'w ddefnyddio'.

## Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl gwario dros £300 miliwn ar Gyfarpar Diogelu Personol ar gyfer y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yn 2020-21

2.36 Fel arfer, byddai GIG Cymru yn disgwyl gwario tua £8 miliwn y flwyddyn ar Gyfarpar Diogelu Personol. Nid oes gennym ffigyrau ar gyfer gofal cymdeithasol gan y byddai llawer o'r gwariant wedi bod gan gartrefi gofal preifat. Mae'r trefniadau ar gyfer ariannu gwariant ar Gyfarpar Diogelu Personol, yn enwedig yn y sector gofal cymdeithasol, wedi newid yn ystod y pandemig (**Blwch 1**).

### Blwch 1: trefniadau ar gyfer ariannu Cyfarpar Diogelu Personol

Ar hyn o bryd, Llywodraeth Cymru sy'n rhoi cyllid i ddarparu Cyfarpar Diogelu Personol sy'n gysylltiedig â COVID y mae canllawiau cenedlaethol yn nodi ei fod yn ofynnol ar gyfer lleoliadau gofal iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r ymrwymiad hwn yn ymestyn i'r holl leoliadau gofal eilaidd a gofal sylfaenol gan gynnwys meddygfeydd teulu, deintyddion, optometryddion a fferyllfeydd. Mae cyrff y GIG yn parhau i ariannu eu gofynion Cyfarpar Diogelu Personol 'busnes fel arfer' ar y sail bod y rhain yn gyson â gwariant blaenorol fwy neu lai.

I ddechrau, dim ond ar gyfer staff a oedd yn gweithio gydag achosion tybiedig neu achosion wedi'u cadarnhau o COVID-19 y byddai'r Cydwasanaethau'n cyflenwi'r sector gofal cymdeithasol. Gallai awdurdodau lleol hawlio costau ychwanegol Cyfarpar Diogelu Personol yn ôl gan Lywodraeth Cymru trwy'r Gronfa Galedi, a sefydlwyd i gefnogi llywodraeth leol yn ystod pandemig COVID-19. Ers canol mis Ebrill 2020, mae'r Cydwasanaethau yn gynyddol wedi bod yn diwallu anghenion y sector gofal cymdeithasol (gofal preswyl a gofal cartref) yn y sectorau cyhoeddus ac annibynnol. Cytunodd y Cydwasanaethau ar gytundeb lefel gwasanaeth gyda CLILC, sy'n rhedeg o fis Medi 2020 tan fis Awst 2021.

2.37 Mae'r Cydwasanaethau'n disgwyl gwario £286 miliwn yn ychwanegol ar Gyfarpar Diogelu Personol, yn bennaf ar gyfer y sector iechyd a gofal cymdeithasol, yn 2020-21. Gosododd y Cydwasanaethau archebion am Gyfarpar Diogelu Personol gyda 18 o gyflenwyr yn 2019. Yn ystod y cyfnod rhwng mis Mawrth 2020 a mis Chwefror 2021, mae'r Cydwasanaethau wedi prynu Cyfarpar Diogelu Personol gan 67 o gyflenwyr, y mae 51 ohonynt yn gyflenwyr newydd. Mae'r gwariant rhagamcanol o £286 miliwn ar Gyfarpar Diogelu Personol gan y Cydwasanaethau, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn cynnwys:

- £186 miliwn ar gyfer Cyfarpar Diogelu Personol a ddosberthir i gyrff iechyd a gofal cymdeithasol; a
- £99 miliwn ar gyfer Cyfarpar Diogelu Personol a ddelir mewn stoc neu y disgwylir iddo gael ei ddanfon erbyn diwedd mis Mawrth 2021.

2.38 Ar ddiwedd mis Ionawr 2021, roedd y Cydwasanaethau'n disgwyl gwario £7.8 miliwn yn ychwanegol ar wariant gweithredol sy'n gysylltiedig â COVID ym mlwyddyn ariannol 2020-21, gyda £5.6 miliwn (72%) o hyn yn gysylltiedig â Chyfarpar Diogelu Personol. Mae **Arddangosyn 12** yn dangos bod bron i £3.2 miliwn o'r gwariant ychwanegol sy'n gysylltiedig â Chyfarpar Diogelu Personol yn wariant ar gostau staff, a bod £1.6 miliwn yn wariant ar gostau cludo.

**Arddangosyn 12: gwariant gweithredol ychwanegol sy'n gysylltiedig â Chyfarpar Diogelu Personol y rhagwelir y bydd yn cael ei ysgwyddo gan y Cydwasanaethau yn 2020-21**

| | **£ miliwn** |
|---|---|
| Costau staff | 3.2 |
| Costau cludo | 1.6 |
| Costau storio a diogelwch | 0.6 |
| Costau eraill sy'n gysylltiedig â Chyfarpar Diogelu Personol | 0.2 |
| **Cyfanswm** | **5.6** |

Ffynhonnell: Y Cydwasanaethau

2.39 Fe gytunodd Llywodraeth Cymru yn wreiddiol i ariannu gwariant llywodraeth leol ar Gyfarpar Diogelu Personol fel rhan o'r Gronfa Galedi ehangach, a sefydlwyd i gefnogi llywodraeth leol trwy'r pandemig. Mae'n anodd canfod yn union faint o Gyfarpar Diogelu Personol y mae Llywodraeth Cymru wedi ei ariannu trwy'r mecanwaith hwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu data ar gyfer hawliadau i'r Gronfa Galedi a gyflwynwyd hyd at fis Hydref 2020.

2.40 Mae cynghorau wedi cael gwerth oddeutu £10 miliwn trwy hawliadau am Gyfarpar Diogelu Personol a allai gynnwys rhai eitemau heblaw Cyfarpar Diogelu Personol megis cynhyrchion glanhau, ac oddeutu £0.5 miliwn i ariannu costau cysylltiedig megis cludo a storio Cyfarpar Diogelu Personol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi darparu oddeutu £39 miliwn[15] i dalu costau cynyddol cyffredinol gofal cymdeithasol i ddarparwyr, gan gynnwys costau Cyfarpar Diogelu Personol. Nid yw Llywodraeth Cymru yn gallu gwahanu'r elfennau Cyfarpar Diogelu Personol o'r gwariant ar bwysau cyffredinol o ran costau.

2.41 Mae cyfuno gwariant y Cydwasanaethau ar Gyfarpar Diogelu Personol ar gyfer y sectorau iechyd a gofal, costau gweithredol a'r cyllid ar gyfer y sector gofal cymdeithasol trwy'r Gronfa Galedi'n codi'r cyfanswm a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru i fwy na £300 miliwn. Rydym yn amcangyfrif bod Llywodraeth Cymru wedi cael tuag £880 miliwn hyd yn hyn trwy fformiwla Barnett oherwydd gwariant ar Gyfarpar Diogelu Personol yn Lloegr, er nad yw Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau'r ffigwr terfynol gyda Thrysorlys EM eto.

2.42 Yn ychwanegol at y gwariant ar Gyfarpar Diogelu Personol ar gyfer Cymru a nodir uchod, o ran y sefyllfa ar ddiwedd mis Ionawr 2021, roedd y Cydwasanaethau wedi gwario £37.5 miliwn ar Gyfarpar Diogelu Personol a gafodd ei gaffael ar ran rhannau eraill o'r DU (**Arddangosyn 13**). Mae'r Cydwasanaethau'n adennill y gwariant trwy anfonebu'r weinyddiaeth berthnasol.

15 Mae hyn yn ychwanegol at gymorth arall o'r Gronfa Galedi ar gyfer gofal cymdeithasol, megis ariannu costau staff ychwanegol.

**Arddangosyn 13: caffael Cyfarpar Diogelu Personol ar ran gwledydd eraill y DU yr adenillir y gwariant arno, hyd at ddiwedd mis Ionawr 2021**

| | £ miliwn |
|---|---|
| Lloegr | 28.3 |
| Yr Alban | 4.8 |
| Gogledd Iwerddon | 4.4 |
| **Cyfanswm** | **37.5** |

Sylwer: mae'r gwariant hwn ar wahân i gydgymirth a ddarparwyd ar gais ar gyfer gwledydd eraill y DU i ateb gofynion brys (**paragraff 1.29**)

Ffynhonnell: Y Cydwasanaethau

## Mae cost eitemau o Gyfarpar Diogelu Personol wedi bod yn sylweddol uwch na chyn y pandemig ond mae wedi gostwng ers y don gyntaf

2.43 Fe achosodd cystadleuaeth fyd-eang ddwys am adnoddau Cyfarpar Diogelu Personol prin i brisiau godi'n sylweddol, gan gyrraedd eu hanterth ym mis Ebrill 2020. Wrth i'r farchnad ymaddasu, fe ostyngodd y prisiau yr oedd y Cydwasanaethau'n eu talu dros amser. Mae'r Gwasanaethau Caffael wedi rhannu dadansoddiad o brisiau a dalwyd ganddynt am fasgiau Math IIR, anadlyddion FFP3 a menig nitril ar ddechrau'r pandemig a sut y gwnaethant ostwng dros amser.

2.44 Mae **Arddangosyn 14** yn dangos bod cost uned ar gyfer masgiau Math IIR, anadlyddion FFP3, menig nitril a gynau gwrth-hylif wedi codi'n sydyn ar ddechrau'r pandemig cyn gostwng yn ôl i lefelau mwy normal tuag at ddiwedd 2020. Ar gyfer menig, a oedd yn costio 800% o'r pris cyfartalog cyn y pandemig pan oedd prisiau ar eu huchaf, y cafwyd y cynnydd mwyaf. Ar y cyfan, ar draws cyfnod y pandemig, mae'r Cydwasanaethau wedi caffael niferoedd uwch o eitemau o Gyfarpar Diogelu Personol am brisiau is. Yn achos masgiau Math IIR, mae contractau mwyaf diweddar y Cydwasanaethau yn rhai am bris uned rhatach na chyn y pandemig.

**Arddangosyn 14: enghreifftiau o gostau unedau a dalwyd gan y Cydwasanaethau am fasgiau Math IIR, anadlyddion FFP3, menig nitril a gynau gwrth-hylif ym mis Tachwedd 2019 ac yn ystod y pandemig yn 2020**

| Math o Gyfarpar Diogelu Personol | Dyddiad | Pris uned, £[1] | Nifer a brynwyd (ar gyfer archebion yn ystod y pandemig)[2] |
|---|---|---|---|
| **Masgiau math IIR** | Tachwedd 2019 | Ystod: 0.14 – 0.24<br>Cyfartaledd: 0.24 | - |
| | Ebrill 2020 | 0.73 | 1,200,000 |
| | Ebrill 2020 | 0.60 | 750,000 |
| | Ebrill 2020 | 0.47 | 40,000,000 |
| | Ebrill 2020 | 0.40 | 44,000,000 |
| | Mai 2020 | 0.35 | 65,000,000 |
| | Mehefin 2020 | 0.20 | 65,000,000 |
| | Hydref 2020 | 0.05 | 76,000,000 |
| | | | |
| **Anadlyddion FFP3** | Tachwedd 2019 | Ystod: 2.42 – 5.38<br>Cyfartaledd: 4.80 | - |
| | Ebrill 2020 | 6.49 | 500,000 |
| | Mehefin 2020 | 4.76 | 1,800,000 |
| | Hydref 2020 | 5.50 | 2,000,000 |
| | | | |
| **Menig nitril** | Tachwedd 2019 | Ystod: 0.02 – 0.19<br>Cyfartaledd: 0.03 | - |
| | Ebrill 2020 | 0.25 | 100,000,000 |
| | Ebrill 2020 | 0.15 | 10,000,000 |
| | Mai 2020 | 0.135 | 144,000,000 |
| | Hydref 2020 | 0.095 | 100,000,000 |
| | Tachwedd 2020 | 0.08 | 182,000,000 |
| | | | |

| Math o Gyfarpar Diogelu Personol | Dyddiad | Pris uned, £[1] | Nifer a brynwyd (ar gyfer archebion yn ystod y pandemig)[2] |
|---|---|---|---|
| **Gynau gwrth-hylif** | Tachwedd 2019 | Cyfartaledd: 0.42 – 2.23<br>Cyfartaledd: 1.41 | - |
| | Ebrill 2020 | 4.50 | 400,000 |
| | Mai 2020 | 2.50 | 3,000,000 |

Nodiadau:

1 Cyfartaledd wedi'i bwysoli rhwng sawl gwahanol fath o gynnyrch sy'n perthyn i'r categori yw prisiau cyn y pandemig. Er enghraifft, roedd 17 o wahanol linellau dan 'menig nitril' ym mis Tachwedd 2019. Mae'n debygol bod y cymysgedd o gynhyrchion a brynwyd yn ystod y pandemig yn wahanol i'r sefyllfa cyn y pandemig.

2 Efallai nad yw nifer yr eitemau a gafodd eu caffael yn gyson â'r data ar stociau a dyroddiadau gan bod rhai eitemau i fod i gael eu danfon mewn sypiau, a bod rhai sypiau heb ddod i law eto. Hefyd, ar gyfer rhai archebion, roedd y Cydwasanaethau'n caffael eitemau ychwanegol ar gyfer llywodraethau eraill yn y DU.

3 Mae prisiau unedau a niferoedd menig nitril yn rhai am bob maneg unigol.

Ffynhonnell: Y Cydwasanaethau

2.45 Bu cryn dipyn o sylw yn y cyfryngau i'r ffioedd a oedd yn gysylltiedig â chyfryngwyr ac asiantau a oedd yn rhan o gaffael Cyfarpar Diogelu Personol yn Lloegr. Rydym yn deall, lle gwnaeth y Cydwasanaethau ymgysylltu ag asiantau, bod ffi'r asiant wedi'i chynnwys yn y pris uned ar gyfer yr eitemau, dan drefniant rhwng yr asiant a'r gweithgynhyrchwr. Gan hynny, nid yw'r Cydwasanaethau'n gwybod faint o elw wnaeth yr asiant. Mewn un achos, cafodd ffioedd yr asiantau eu capio ar ganran benodol o bris uned. Roedd y ffioedd hyn yn cynnwys gorbenion, gweinyddu, costau staffio, cludo ar dir, gwiriadau diwydrwydd dyladwy, archwiliadau yn y wlad, ffioedd cyfrifon ysgrow ac elw.

## Mae rhai penderfyniadau allweddol i'w gwneud fel rhan o'r strategaeth gaffael yn y dyfodol ar gyfer Cyfarpar Diogelu Personol, gan gynnwys ynglŷn â chynnwys gweithgynhyrchwyr cartref

2.46 Roedd Cynllun Gaeaf y Cydwasanaethau ar gyfer Cyfarpar Diogelu Personol yn rhedeg tan ddiwedd mis Mawrth 2021. Mae rhai materion arwyddocaol i Lywodraeth Cymru eu hystyried ar gyfer caffael yn y dyfodol, gan gynnwys maint a natur unrhyw bentwr yn y dyfodol a chynnwys gweithgynhyrchwyr yng Nghymru. Mae'r Cydwasanaethau'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i estyn egwyddorion allweddol Cynllun y Gaeaf ar gyfer Cyfarpar Diogelu Personol (**paragraff 1.36**) i mewn i 2021-22. Mae sefyllfa interim yn cael ei datblygu sy'n debygol o leihau'r targed i ddal gwerth 24 wythnos o stoc ar gyfer y rhan fwyaf o eitemau o Gyfarpar Diogelu Personol i adlewyrchu'r risg sy'n lleihau ers diwedd cyfnod pontio'r UE. Bydd cynllun strategol tymor hwy yn cael ei ddatblygu yn ystod haf 2021.

2.47 O'r 67 o gyflenwyr y cyfeiriom ni atynt ym **mharagraff 2.37**, roedd 13 yn weithgynhyrchwyr yng Nghymru ac roedd nifer o ddosbarthwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru'n rhan o sicrhau Cyfarpar Diogelu Personol hefyd. Mae gweithgynhyrchwyr eraill yng Nghymru wedi cyflenwi cyrff lleol â Chyfarpar Diogelu Personol a gyflwynwyd yn rhodd, er enghraifft hylif diheintio dwylo a fisorau.

2.48 Bu swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n rhan o'r CERET yn cydweithio'n agos gyda gweithgynhyrchwyr i'w helpu i feithrin capasiti a chael ardystiad ar gyfer rhai o'r eitemau mwy cymhleth o Gyfarpar Diogelu Personol. Fodd bynnag, roedd yr amser a gymerwyd gyda'r paratoadau'n golygu nad oedd y cyflenwyr posibl yn gallu manteisio ar brisiau cymharol uchel yng ngwanwyn a haf 2020 pan oedd y Cydwasanaethau'n cynyddu archebion ar gyfer eu Cynllun Gaeaf, a phan fyddai prisiau cyflenwyr yng Nghymru wedi bod yn weddol gystadleuol. Yn ei hadroddiad, fe amlygodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol her datblygu'r farchnad gartref ar gyfer Cyfarpar Diogelu Personol o ystyried y cyflenwad mawr o Gyfarpar Diogelu Personol oedd wedi pentyrru yn Lloegr, sy'n cyfyngu ar faint posibl y farchnad ar gyfer rhai eitemau.

2.49 Roedd adroddiad Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Senedd yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried yr opsiynau ar gyfer cefnogi busnesau lleol sy'n dymuno parhau i wneud Cyfarpar Diogelu Personol. Mae Llywodraeth Cymru yn ail-lunio ei dull cyffredinol o fynd ati i gaffael, gyda golwg ar fod â mwy o ffocws ar y manteision economaidd lleol a'r economi sylfaenol. Yn ein barn ni, yn awr mae angen i Lywodraeth Cymru roi arweiniad clir i wasanaethau cyhoeddus a gweithgynhyrchwyr ynghylch ei bwriadau ar gyfer y farchnad Cyfarpar Diogelu Personol gartref.

2.50 O dan y dull caffael arferol, mae gwasanaethau cyhoeddus yn gallu cymharu rhinweddau gwahanol gynigwyr gan ddefnyddio ystod o feini prawf i ddangos 'gwerth' yn ei holl agweddau. Gallai'r opsiwn drutach gynnig manteision ychwanegol o ran arloesi a / neu nodau polisi ehangach, megis datblygu cynaliadwy yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r materion a amlygwyd ym **mharagraffau 2.33 i 2.35** mewn perthynas â chadwyni cyflenwi moesegol yn berthnasol yn y cyd-destun hwn hefyd.

2.51 Ceir rhai penderfyniadau i'w gwneud hefyd ynglŷn â maint a natur y pentwr a fydd yn cael ei ddal os ceir pandemig yn y dyfodol. Mae'r nod ar hyn o bryd i fod â gwerth 24 wythnos o gyflenwad wrth gefn yn sylweddol fwy na'r pentwr a oedd yn cael ei ddal yn flaenorol ar gyfer pandemig ffliw. Mae cadw pentwr yn dwyn costau o ran cadw mewn warysau, staff i reoli'r stoc a gwastraff posibl gan y gall rhai eitemau fynd heibio i'w dyddiad defnyddiadwy. Os bydd pentwr sylweddol, bydd cwestiynau i'w datrys ynglŷn ag amseriad caffael a pha un a ellir ei gronni pan fo prisiau'n ôl i'w lefel arferol yn hytrach nag ar adeg pan fo'r galw rhyngwladol yn dal i fod yn uchel.

# Atodiadau

1 Ymagwedd a dulliau archwilio

2 Sefydliadau a grwpiau sydd wedi bod yn rhan o gaffael a chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol

3 Stociau Cyfarpar Diogelu Personol y Cydwasanaethau yn ystod y pandemig

# 1 Ymagwedd a dulliau archwilio

## Ymagwedd archwilio

Roedd cwmpas ein gwaith yn cynnwys caffael a chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer yr holl wasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, yn ymarferol roedd ein prif ffocws ar y GIG a'r sector gofal cymdeithasol a'r gweithgarwch caffael cenedlaethol a arweiniwyd gan Lywodraeth Cymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (Y Cydwasanaethau). Er ein bod yn cydnabod bod Cyfarpar Diogelu Personol wedi bod yn cael ei gaffael a'i ddosbarthu'n lleol, nid oedd hyn yn ffocws arwyddocaol i'n gwaith.

I oleuo ein gwaith, fe wnaethom adolygu tystiolaeth a gyflwynwyd i Bwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Senedd yng ngwanwyn/haf 2020. Fe ymdriniodd y Pwyllgor â Chyfarpar Diogelu Personol yn yr adroddiad a gyhoeddodd ym mis Gorffennaf 2020, Ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: Adroddiad 1.

Fe wnaethom hefyd adolygu dau adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a oedd yn ymdrin â chaffael a chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol yn Lloegr.

- Investigation into government procurement during the COVID-19 pandemic, Tachwedd 2020,
- The supply of personal protective equipment (PPE) during the COVID-19 pandemic, Tachwedd 2020.

Gan adeiladu ar yr adroddiadau hyn, fe gyhoeddodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Llywodraeth y DU ei adroddiad ei hun ym mis Chwefror 2021, COVID-19: Government procurement and supply of Personal Protective Equipment.

Rydym wedi archwilio materion tebyg yn ein gwaith ni. Rydym wedi trafod caffael a chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol gyda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a chyda chymheiriaid yn Audit Scotland a Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon.

## Dulliau archwilio

Fe ddefnyddiom ni ystod o ddulliau:

- **Adolygu dogfennau:** fe adolygom ni ddogfennau cynllunio cyn y pandemig, cynlluniau strategol, papurau a gafodd eu hystyried gan fyrddau a phwyllgorau'r GIG, canllawiau gan gynnwys ar ddefnyddio Cyfarpar Diogelu Personol mewn gwahanol leoliadau ac ar gaffael, ac adroddiadau Archwilio Mewnol perthnasol gan gynnwys:
    - ym mis Hydref 2020, fe gyhoeddodd Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd GIG Cymru (rhan o'r Cydwasanaethau) adroddiad ar drefniadau llywodraethu ariannol y Cydwasanaethau yn ystod pandemig COVID-19. Roedd yr adolygiad yn ymdrin â gwariant a oedd yn gysylltiedig â COVID-19 gan gynnwys, ymhlith eitemau eraill, Cyfarpar Diogelu Personol, rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2020. Mae Rhan 2 o'n hadroddiad ni'n ymdrin â rhai materion tebyg ar gyfer Cyfarpar Diogelu Personol yn benodol.
    - ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddodd Gwasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru adroddiad ar strategaeth a threfniadau llywodraethu Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyfarpar Diogelu Personol. Cofnododd yr archwilwyr sgôr 'sicrwydd rhesymol', gan nodi eu barn bod y trefniadau'n gweithredu'n effeithiol ar gyfer goruchwylio Cyfarpar Diogelu Personol. Fe argymhellodd yr adroddiad fod swyddogion yn cynnal ymarfer 'gwersi a ddysgwyd', yn coladu llinell amser o ddigwyddiadau allweddol ac yn gwneud rhai mân newidiadau gweinyddol.
- **Cyfweliadau lled-strwythuredig:** fe gynhaliom ni gyfweliadau gyda swyddogion a oedd yn rhan o gynllunio a chaffael Cyfarpar Diogelu Personol ar draws y Cydwasanaethau, Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
- **Dadansoddi data:** fe wnaethom adolygu'r data a oedd ar gael ar ddosbarthu eitemau o Gyfarpar Diogelu Personol yng Nghymru, gwariant GIG Cymru, prisiau eitemau o Gyfarpar Diogelu Personol a lefelau'r stoc a oedd yn cael ei dal a'i dosbarthu. Mae'r dull monitro ac adrodd mwy canoledig yn y GIG yn golygu bod data ar ofal iechyd wedi bod ar gael yn rhwyddach na data ar ofal cymdeithasol.
- **Arolygon staff:** fe wnaethom ddadansoddi data o arolygon a ddarparwyd gan gyrff sy'n cynrychioli staff meddygol a nyrsio (Y Coleg Nyrsio Brenhinol a Chymdeithas Feddygol Prydain). Gan mai cyfranogwyr hunan-ddetholedig oedd y rhain, yn hytrach na sampl ar hap, ni allwn wybod pa mor gynrychiolaidd yw'r profiadau hyn o weithlu'r GIG a'r gweithlu gofal cymdeithasol yn eu cyfanrwydd.

- **Profi ymarferion caffael:** fe wnaethom adolygu sampl o 16 o gontractau a oedd yn gysylltiedig â Chyfarpar Diogelu Personol, gan wirio cydymffurfiaeth â gweithdrefnau disgwyliedig a chwilio am ystyriaeth ehangach i risgiau i werth am arian. Fe ddewisom ni gymysgedd o gontractau â gwerth uwch a gwerth is nad oeddent yn rhan o'r gadwyn gyflenwi arferol (Arddangosyn 15). Roedd ein sampl yn cwmpasu 71% o werth y contractau hyn a osodwyd ar ddiwedd mis Tachwedd 2020, a oedd yn cynnwys pryniannau ar ran gwledydd eraill yn y DU.
- **Ymweliad â safle:** ym mis Tachwedd 2020, fe ymwelom ni â'r warws lle caiff cyfran sylweddol o stoc Cyfarpar Diogelu Personol wrth gefn ei dal. Fe gynhaliom ni asesiad risg iechyd a diogelwch ymlaen llaw. Fe wisgodd staff Archwilio Cymru a GIG Cymru orchuddion wyneb ac fe gadwon nhw bellter cymdeithasol.
- **Ymgysylltu ehangach:** fe ysgrifennom ni at sefydliadau a ddarparodd dystiolaeth mewn perthynas â Chyfarpar Diogelu Personol fel rhan o ymchwiliad Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Senedd yng ngwanwyn/haf 2020. Fe estynnom ni wahoddiad iddynt rannu unrhyw dystiolaeth newydd neu faterion newydd a oedd yn achosi pryder. Fe ysgrifennom ni at 21 o sefydliadau ac fe gawsom 6 ymateb. Mewn rhai achosion, fe gynhaliom ni ddeialog bellach ar ôl cael yr ymatebion hynny.

**Arddangosyn 15: manylion contractau a gafodd eu cynnwys yn ein gwaith i brofi sampl o ymarferion caffael**

| Rhif y sampl | Eitem o Gyfarpar Diogelu Personol a gafodd ei chaffael | Gwerth disgwyliedig y contract ar ddiwedd Tachwedd 2020 |
|---|---|---:|
| 1 | Masgiau math IIR | £23,400,000 |
| 2 | Masgiau math IIR | £21,150,000 |
| 3 | Menig nitril | £19,440,000 |
| 4 | Masgiau math IIR | £18,000,000 |
| 5 | Menig nitril | £14,497,960 |
| 6 | Masgiau math IIR | £14,483,220 |
| 7 | Masgiau math IIR | £12,432,205 |
| 8 | Anadlyddion FFP3 | £11,143,934 |
| 9 | Anadlyddion FFP3 | £9,500,000 |
| 10 | Anadlyddion FFP3 | £12,100,000 |
| 11 | Gynau gwrth-hylif | £6,019,355 |
| 12 | Gynau gwrth-hylif | £1,720,000 |
| 13 | Gynau gwrth-hylif | £1,008,000 |
| 14 | Masgiau math IIR | £890,000 |
| 15 | Taliadau cludo llwyth mewn awyren | £655,000 |
| 16 | Taliadau cludo llwyth mewn awyren | £248,259 |

# 2 Organisations and groups involved in the procurement and supply of PPE

Y tu hwnt i Lywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd, rydym yn cyfeirio yn yr adroddiad hwn at amryw sefydliadau neu grwpiau sydd wedi bod yn rhan o'r gweithgarwch cenedlaethol i gaffael a chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol. Mae **Arddangosyn 16** yn darparu trosolwg ond nid yw'n gynhwysfawr. Darparodd sefydliadau neu grwpiau eraill fewnbwn ar wahanol adegau at ddibenion penodol.

**Arddangosyn 16: sefydliadau a grwpiau allweddol eraill sydd wedi bod yn rhan o'r gweithgarwch cenedlaethol i gaffael a chyflenwi'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol â Chyfarpar Diogelu Personol**

| Sefydliad | Disgrifiad |
|---|---|
| Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (Y Cydwasanaethau) | Mae'r Cydwasanaethau'n darparu gwasanaethau proffesiynol, technegol a gweinyddol ar ran cyrff eraill y GIG, sy'n cynnwys gwasanaethau caffael a'r Labordy Profi Deunyddiau Llawfeddygol.<br>Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau sy'n pennu'r polisi Cydwasanaethau ar gyfer GIG Cymru, yn monitro perfformiad ac yn cefnogi datblygiad strategol y Cydwasanaethau a'u gwasanaethau. |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | Nod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru yw diogelu a gwella iechyd a lles a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Mae wedi gweithio ochr yn ochr ag asiantaethau iechyd y cyhoedd yng ngwledydd eraill y DU i ddatblygu a chyhoeddi canllawiau ar atal a rheoli heintiau, sy'n cynnwys defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol. |
| Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre | Caiff y Cydwasanaethau eu lletya gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre trwy gytundeb ffurfiol, a lofnodwyd gan bob sefydliad statudol yn GIG Cymru. Fel sefydliad a letyir, mae'r Cydwasanaethau'n gweithredu dan fframwaith gyfreithiol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. |

| Sefydliad | Disgrifiad |
|---|---|
| Y Grŵp Llywodraethu Cyllid (GLIC) | Fe sefydlodd y Cydwasanaethau'r GLIC i graffu ar risgiau sy'n gysylltiedig â chaffael mewn perthynas â COVID-19 a rheoli'r risgiau hynny.<br>Mae'r GLIC yn cynnwys gwahanol rannau o'r Cydwasanaethau ynghyd ag aelodau o Fwrdd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Daw cynrychiolwyr y Cydwasanaethau o'r timau caffael, archwilio a sicrwydd, y gwasanaethau cyllid a chorfforaethol, y gwasanaethau cyfreithiol a risg a'r tîm atal twyll. |
| Y Labordy Profi Deunyddiau Llawfeddygol (LPDLI) | Mae'r Labordy Profi Deunyddiau Llawfeddygol yn rhan o'r Cydwasanaethau ac yn darparu gwasanaethau profi a thechnegol i gefnogi gweithgarwch caffael GIG Cymru. |
| Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru (HGBC) | Sefydliad a ffurfiwyd yn 2014 sy'n dwyn ynghyd aelodau yn y sector Gwyddorau Bywyd i gydweithio ar ddatrysiadau. Mae dogfen fframwaith rhwng Llywodraeth Cymru a HGBC yn nodi'r trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd, ac mae HGBC yn cael cylch gwaith blynyddol gan Lywodraeth Cymru. |
| Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (GCC) | Rhan o Lywodraeth Cymru, sy'n hybu cydweithio ym maes caffael yn sector cyhoeddus Cymru ac yn rheoli nifer o fframweithiau caffael cydweithredol ar gyfer ystod o nwyddau a gwasanaethau. |
| Y Tîm Peirianneg Gofynion Cyfarpar Hanfodol (CERET) | Fe'i sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2020, gan ddwyn ynghyd gydweithwyr ar draws Llywodraeth Cymru, y GIG, y LPDLI, HGBC a Diwydiant Cymru i roi cymorth i gaffael Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer lleoliadau gofal iechyd. |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) | Fe gydlynodd CLILC ymatebion a gweithgarwch caffael ar gyfer gofal cymdeithasol rhwng y 22 o awdurdodau lleol a bu'n cynnal cyswllt â'r Cydwasanaethau, y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru ar lefel ehangach. |

# 3 Stociau Cyfarpar Diogelu Personol y Cydwasanaethau yn ystod y pandemig

**Arddangosyn 17: nifer yr eitemau a nifer yr wythnosau o eitemau a oedd yn cael eu dal mewn stoc ar 7 Chwefror 2021, yr uchafbwyntiau a'r isafbwyntiau**

| Eitem o Gyfarpar Diogelu Personol | | Wythnosau o stoc ar 7 Chwefror | Nifer uchaf o wythnosau | Nifer isaf o wythnosau |
|---|---|---|---|---|
| Ffedogau | Wythnosau | 37.8 | 47.8 | 2.4 |
| | Dyddiad | | 30 Tach 2020 | 5 Mai 2020 |
| Bagiau cyrff | Wythnosau | 384.8 | 5,733.8 | 2.2 |
| | Dyddiad | | 30 Gorff 2020 | 14 Ebr 2020 |
| Cyfarpar diogelu'r llygaid | Wythnosau | 601.9 | 205.557.3 | 0.1 |
| | Dyddiad | | 9 Gorff 2020 | 11 Mai 2020 |
| Fisor wyneb | Wythnosau | 19.3 | 55.6 | 0.1 |
| | Dyddiad | | 7 Medi 2020 | 8 Ebr 2020 |
| Anadlydd FFP2 | Wythnosau | 97.0 | 1,496.6 | 12.3 |
| | Dyddiad | | 12 Mai 2020 | 27 Gorff 2020 |
| Anadlydd FFP3 | Wythnosau | 9.3 | 32.9 | 1.4 |
| | Dyddiad | | 9 Tach 2020 | 2 Ebr 2020 |
| Citiau a darnau sbâr ar gyfer profion ffitio | Wythnosau | 667.6 | 2,729.4 | 0.2 |
| | Dyddiad | | 4 Ion 2021 | 6 Ebr 2020 |
| Menig | Wythnosau | 3.7 | 7.6 | 1.3 |
| | Dyddiad | | 7 Medi 2020 | 7 Rhag 2020 |
| Menig (â chyffiau) | Wythnosau | 26.8 | 71.5 | 0.8 |
| | Dyddiad | | 18 Ion 2021 | 7 Ebr 2020 |
| Gynau (gwrth-hylif) | Wythnosau | 116.3 | 145.9 | 0.2 |
| | Dyddiad | | 17 Awst 2020 | 25 Ebr 2020 |

| Eitem o Gyfarpar Diogelu Personol | | Wythnosau o stoc ar 7 Chwefror | Nifer uchaf o wythnosau | Nifer isaf o wythnosau |
|---|---|---|---|---|
| Gynau (eraill) | Wythnosau | 3.3 | 44.8 | 0.6 |
| | Dyddiad | | 22 Meh 2020 | 26 Ebr 2020 |
| Hylif diheintio dwylo | Wythnosau | 79.1 | 127.1 | 1.6 |
| | Dyddiad | | 18 Ion 2021 | 15 Ebr 2020 |
| Cadachau diheintio dwylo | Wythnosau | 11.4 | 83.2 | 5.7 |
| | Dyddiad | | 4 Ion 2021 | 31 Awst 2020 |
| Masgiau math I a math II | Wythnosau | 85.3 | 147.2 | 0.3 |
| | Dyddiad | | 30 Tach 2020 | 7 Ebr 2020 |
| Masgiau math IIR | Wythnosau | 50.5 | 116.0 | 0.2 |
| | Dyddiad | | 18 Ion 2021 | 7 Ebr 2020 |
| Cyflau ar gyfer anadlyddion | Wythnosau | Nid oedd yn bosibl dadansoddi am mai nifer cyfyngedig a ddyroddwyd | | |
| | Dyddiad | | | |
| Hidlyddion ar gyfer anadlyddion | Wythnosau | Nid oedd yn bosibl dadansoddi am mai nifer cyfyngedig a ddyroddwyd | | |
| | Dyddiad | | | |

Sylwer: adroddir ar un uned o fenig fel pecyn, sy’n amrywio o ran maint, ac ar hylif diheintio dwylo fel potel, sy’n amrywio o ran cyfaint.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata’r Cydwasanaethau

### Arddangosyn 18: cyfanswm yr unedau o Gyfarpar Diogelu Personol a ddyroddwyd hyd at 7 Chwefror 2021

| Eitem o Gyfarpar Diogelu Personol | Unedau |
|---|---|
| Ffedogau | 113,770,625 |
| Bagiau cyrff | 11,316 |
| Cyfarpar diogelu'r llygaid | 1,627,000 |
| Fisor wyneb | 5,167,736 |
| Anadlydd FFP2 | 126,036 |
| Anadlydd FFP3 | 2,823,373 |
| Citiau a darnau sbâr ar gyfer profion ffitio | 5,965 |
| Menig | 337,469,340 |
| Menig (â chyffiau) | 1,306,900 |
| Gynau (gwrth-hylif) | 2,000,584 |
| Gynau (eraill) | 643,990 |
| Hylif diheintio dwylo | 391,514 |
| Cadachau diheintio dwylo | 20,135,400 |
| Masgiau math I a math II | 1,174,150 |
| Masgiau math IIR | 143,238,551 |
| Cyflau ar gyfer anadlyddion | 102 |
| Hidlyddion ar gyfer anadlyddion | 22,176 |
| **Cyfanswm** | **629,914,758** |

Sylwer: adroddir ar un uned o fenig fel pecyn, sy'n amrywio o ran maint, ac ar hylif diheintio dwylo fel potel, sy'n amrywio o ran cyfaint.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Darparu eitemau cyfarpar diogelu personol: hyd at 7 Chwefror 2021, rhyddhawyd 11 Chwefror 2021

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn
yn Gymraeg a Saesneg

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru